# STRATEGAETH BUDDSODDI ADDYSG CAERDYDD 2024 - 2033 DOGFEN YMGYNGHORI 2026

## DARPARIAETH ARBENIGOL I DDYSGWYR CYNRADD AC UWCHRADD AG ANGHENION DYSGU CYMHLETH

**9 CHWEFROR - 26 MAWRTH 2026**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Tabl Cynnwys


**Cyflwyniad**

- Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

**Ymgynghoriad**

- Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?
- Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig
- Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon**

**Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?**

**Yr Ymagwedd o ran Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd**

**Canolfannau Adnoddau Arbenigol**

**Ysgolion Arbennig**

**Digonolrwydd yn y Sector Arbennig**

**Darpariaeth i Ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth**

- Darpariaeth bresennol
- Dosbarthiad daearyddol y Ddarpariaeth Arbenigol

**Galw am leoedd**

- Galw am leoedd
- Cynyddu'r ddarpariaeth i ddysgwyr oed cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth

**YSGOL GYNRADD ADAMSDOWN**

**Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Adamsdown**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd prif ffrwd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad y Ganolfan Adnoddau Arbenigol

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a rheoli

**Materion Adnoddau Dynol**

**Dweud eich dweud**

## YSGOL GYNRADD PENCAERAU

### Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pencaerau

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd prif ffrwd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad y Ganolfan Adnoddau Arbenigol

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a rheoli

### Materion Adnoddau Dynol

### Dweud eich dweud

## YSGOL GYNRADD PETER LEA

### Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Peter Lea

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd prif ffrwd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad y Ganolfan Adnoddau Arbenigol

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a rheoli

### Materion Adnoddau Dynol

### Dweud eich dweud

## YSGOL ARBENNIG MEADOWBANK

### Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Meadowbank

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd ADY yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad yr ysgol

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu

- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a rheoli

**Materion Adnoddau Dynol**

**Dweud eich dweud**

## YSGOL ARBENNIG TŶ GWYN

**Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn a throsglwyddo'r ysgol i adeilad newydd yn Nhŷ Glas**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd ADY yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Safle Ysgol Arbennig Riverbank (Vincent Road)
- Safle Tŷ Glas
- Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn ysgol

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a rheoli

**Materion Adnoddau Dynol**

**Dweud eich dweud**

## YSGOL UWCHRADD WOODLANDS

**Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Uwchradd Woodlands**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd ADY yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad yr ysgol

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a rheoli

**Materion Adnoddau Dynol**

**Dweud eich dweud**

## GWYBODAETH SY'N BERTHNASOL I BOB CYNNIG

**Manteision y newidiadau arfaethedig**

**Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig**

**Risgiau**

**Dewisiadau amgen**

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**

- Beth fyddai'r effaith ar y gefnogaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?
- Sut fyddai'r gefnogaeth i ddisgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn cael ei effeithio?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?**

**Trefniadau derbyn**

**Trefniadau Teithio Dysgwyr a Thraffig a Thrafnidiaeth**

**Materion Ariannol**

**Darpariaeth Iechyd**

**Datblygu'r gweithlu addysg**

**Trefniadau Llywodraethu**

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cydraddoldeb**

**Effaith ar y Gymuned**

**Tarfu Posibl i Ddisgyblion**

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

- Dyddiadau Allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Penderfynu ar y cynigion
- Hysbysiad o'r Penderfyniad

## ATODIAD 1

# CYFLWYNIAD

## Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.

Bydd o ddiddordeb penodol i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n mynychu neu'n disgwyl mynychu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol a'r rhai sydd wedi neu sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Cymhleth.

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

Mae'r Cyngor am wneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oed cynradd ac uwchradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi ystod o gynigion i gynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol a'r lleoedd Ysgol Arbennig i ddysgwyr 3 - 19 oed sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Ateb y galw am leoedd arbenigol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth, cynigir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth â 10 yn Ysgol Gynradd Adamsdown o fis Ionawr 2027 yn yr adeiladau presennol
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth ag 20 lle yn Ysgol Gynradd Pencaerau o fis Ionawr 2027 yn yr adeiladau presennol
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth ag 20 lle yn Ysgol Gynradd Peter Lea o fis Ionawr 2027 yn yr adeiladau presennol
- Cynyddu'r nifer dynodedig o leoedd yn Ysgol Arbennig Meadowbank o 98 i 110 o fis Ionawr 2027.
- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 240 o leoedd i 300 o leoedd, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol a'r adeilad gwag yn Ysgol Arbennig Riverbank, Vincent Road, Trelái am gyfnod pontio o fis Ionawr 2027. Byddai'r ysgol estynedig yn trosglwyddo i adeilad newydd ar safle Tŷ Glas yn Llanisien gyda chynnydd pellach mewn capasiti i 320 o leoedd o fis Medi 2030.
- Cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Woodlands o 240 i 300 o leoedd o fis Ionawr 2027. Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan gynnwys safle campws y Tyllgoed a safle campws presennol Vincent Road. Byddai capasiti'r ysgol yn cael ei gynyddu ymhellach i 360 o leoedd o fis Medi 2032 ar ôl cwblhau'r adeilad newydd ar safle campws Vincent Road.

Gellir dod o hyd i wybodaeth benodol ar gyfer pob cynnig ar dudalennau 23 - 60.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag:

- Awtistiaeth/Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol
- Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

# Ymgynghoriad

## Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn ceisio barn pobl ar y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

**Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:**

| Tabl 1: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni/gofalwyr | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Staff yr ysgol | Gwasanaeth Gwella Ysgolion Caerdydd |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau) | Undebau Llafur |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Darparwyr gofal plant |
| Awdurdodau Cymdogol | Mudiad Meithrin |
| Pob Ysgol yng Nghaerdydd | Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru |
| Estyn | Clybiau Plant Cymru |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | PACEY Cymru |
| Chwarae Cymru | Mentrau Iaith |
| Cynghorau Cymuned | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Y Comisiynydd Plant | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Sefydliadau y Sector Gwirfoddol | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Coleg Dewi Sant | Fforwm Addysg Gymraeg |
| Darparwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol y Tu Allan i'r Sir / Nas Cynhelir | |

## Barn plant ar y cynnig arfaethedig

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i fod yn ddinas sy'n dda i blant lle gall plant lywio penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

- Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- Os na allwch gael gafael ar y wybodaeth ar-lein, gallwch ofyn am gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori hon drwy'r post. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.
- Byddwn yn dweud wrth deuluoedd sydd â phlant yn yr ysgolion dan sylw sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.
- Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio i unrhyw un fynd iddynt lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Bydd sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein yn cael eu cynnig.
- Bydd swyddogion y Cyngor yn cwrdd â Chorff Llywodraethu a staff (yn ôl yr angen) yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r cynigion hyn.
- Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod:

**Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori**

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn galw heibio | Dydd Iau 19 Chwefror 2026 **9:30am - 11:30am** | Hyb Llanisien |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Gwener 27 Chwefror 2026 **10:30am -12:30pm** | Hyb Trelái a Chaerau |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Gwener 6 Mawrth 2026 **11:30am - 1:30pm** | Hyb STAR |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Llun 9 Mawrth 2026 **12 noon - 2pm** | Canolfan Ddiwylliant a'r Cyfryngau Loudon |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Mercher 18 Mawrth 2026 **11am - 1pm** | Hyb Llaneirwg |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Mercher 18 Chwefror 2026 **12 noon - 1pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Llun 23 Chwefror 2026 **1pm - 2pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Mawrth 24 Chwefror 2026 **2pm - 3pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Llun 2 Mawrth 2026 **5pm - 6pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Gwener 13 Mawrth 2026 **12:30pm - 1:30pm** | Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus (wyneb yn wyneb) | Dydd Iau 19 Mawrth 2026 **5:30pm - 6:30pm** | Y Llyfrgell Ganolog |

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Ymuno â sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb. Nid oes angen i chi archebu ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau hyn. Dim ond mynd i'r lleoliad ar y dyddiad a'r amser a bennir
- Ymuno â sesiwn galw heibio ar-lein. Cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk i gadarnhau pa sesiwn yr hoffech chi fynd iddi a byddwn yn anfon dolen atoch ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i fynd i'r cyfarfod hwn.

- Mynychu'r cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb. Cysylltwch â ni drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan nodi pa gyfarfod yr hoffech ei fynychu, a byddwn yn ymateb i gadarnhau'r trefniadau.
- Llenwi'r ffurflen ymateb electronig y gallwch ddod o hyd iddi yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- Argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
- Ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog eich ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 26 Mawrth 2026.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

## Eglurhad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**Nifer Derbyn** - mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC). Y nifer derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn rhwng y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.

**ADY (Anghenion Dysgu Ychwaaengol)** - ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddynt anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar eu dysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyraidd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Cydlynydd ADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)** - aelod o staff mewn ysgol sy›n gyfrifol am reoli cymorth i fyfyrwyr ag ADY a hyrwyddo cynhwysiant o fewn yr ysgol. Mae eu rôl yn cynnwys cysylltu â disgyblion, rhieni, athrawon, ac asiantaethau allanol, monitro effeithiolrwydd cymorth ac ymyriadau, cynnal CDUau a threfnu hyfforddiant ar gyfer staff eraill yr ysgol.

**Awtistiaeth** - anabledd datblygiadol gydol oes sy›n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd. Sbectrwm yw awtistiaeth. Mae hyn yn golygu bod pawb ag awtistiaeth yn wahanol. Ychydig iawn o gefnogaeth sydd ei angen ar rai pobl awtistig neu ddim cymorth o gwbl. Efallai y bydd eraill angen help rhiant neu ofalwr bob dydd.

**Partneriaeth Gwella Dysgu Cydweithredol (PGDC)** - partneriaethau strwythuredig rhwng ysgolion sydd wedi›u sefydlu i gefnogi gwelliant parhaus mewn ysgolion ac i godi deilliannau i bob dysgwr.

**Ysgolion Cymunedol** – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Anghenion Dysgu Cymhleth** - mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu cymhleth amrywiaeth o broblemau a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy›n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

**Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol** – mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn cael effaith ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill a'r dewisiadau a wnânt. Weithiau mae hyn o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos gorbryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)** - darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae AHY yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan y Cyngor ac nid yw›n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

**Prydau Ysgol am Ddim (PYADd)** – mae prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yng Nghymru bellach. Fodd bynnag, mae cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (cPYADd) yn dal i gael ei gofnodi lle bo hynny›n bosibl, gan ei fod yn ffordd o nodi amddifadedd cymdeithasol ac yn cael ei ddefnyddio i bennu dyraniadau cyllid a grantiau ar gyfer ysgolion a theuluoedd. Gall plentyn fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim os yw ei riant yn derbyn mathau penodol o gymhorthdal incwm neu gredydau, neu os yw ei riant yn cael cymorth o dan Ran VI o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches.

**Darpariaeth yn y Sir** - Lleoedd mewn ysgolion neu Ganolfannau Adnoddau Arbenigol a ariennir gan y Cyngor yng Nghaerdydd.

**Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** – Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag angen a nodwyd sy›n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol Gynllun Datblygu Unigol gorfodol (CDU). Mae'r cynllun yn nodi anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc a'r camau sydd eu hangen i›w cefnogi. Mae CDUau wedi disodli datganiadau AAA. Mae gan bob plentyn mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol CDU. Cyfrifoldeb yr ysgol neu'r awdurdod lleol fydd CDUau.

**Prif Ffrwd** - mae ysgol brif ffrwd yn ysgol sy›n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

**Nifer ar y Gofrestr (NAG)** – nifer y disgyblion sydd mewn ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**Darpariaeth y tu allan i›r Sir** - lle nad oes gan y Cyngor ddarpariaeth addas ar gyfer disgyblion sydd angen lle arbenigol, efallai y bydd yn rhaid ariannu lleoedd mewn ysgol neu ganolfan adnoddau arbenigol mewn ardal Cyngor arall neu mewn darpariaeth sy›n cael ei rhedeg gan sefydliad annibynnol.

**CYBLD** – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, eu cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, eu mamiaith a disgyblion sy'n cael bodloni meini prawf Prydau Ysgol Am Ddim.

**ACM (Anawsterau Corfforol a Meddygol)** - dysgwyr sydd â phroblemau symudedd parhaol neu dros dro, salwch cronig, neu namau synhwyraidd. Mae›r effaith ar ddysgwyr yn amrywio›n fawr gyda rhai yn profi ychydig o effaith ar ddysgu tra bod eraill angen cefnogaeth ac addasiadau sylweddol.

**ADDLl (Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog)** – dysgwyr ag anableddau dysgu difrifol ynghyd â heriau sylweddol eraill fel anableddau corfforol, synhwyraidd namau, anghenion iechyd cymhleth ac anawsterau cyfathrebu, sy'n gofyn am lefelau uchel o gymorth ar gyfer dysgu, gofal personol, a chwricwlwm wedi›i deilwra, yn aml gyda dulliau penodol fel ysgogiad synhwyraidd a dulliau cyfathrebu amgen.

**Ysgol Arbennig** – ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan y disgyblion mewn ysgol arbennig Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

**Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)** - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu CAA Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ac fe›u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

**Datganiad AAA** - Dogfen sy›n disgrifio'n fanwl anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol gan nodi›r ddarpariaeth sy›n cael ei gwneud i›w cefnogi. Mae›r rhain bellach yn cael eu disodli gan Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).

**Hysbysiad Statudol** – hysbysiad statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Gwneir hyn dim ond os bydd Cabinet y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)** - cynllun statudol y mae›n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ei baratoi, gan ddatgan sut y bydd yn gwella cynllunio addysg Gymraeg a gwella safonau mewn addysg Gymraeg, gyda thargedau wedi›u gosod a›u cytuno gan Weinidogion Cymru.

## Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?

### Cryfach Tecach Gwyrddach

Mae polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yn blaenoriaethu addysg fel yr allwedd i leihau tlodi a sbarduno ffyniant hirdymor, gan ymrwymo i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda drwy fuddsoddiad, gwell cyrhaeddiad, a chefnogaeth i blant agored i niwed o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwch.

Mae modd gweld Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn **Cryfach Tecach Gwyrddach**

### Caerdydd 2030

Nod Caerdydd 2030 yw sefydlu 'Hawl Dysgu', lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn gallu:

- Cael mynediad at lwybrau priodol i addysg a chyfleoedd dysgu
- Ffynnu a chyflawni eu potensial
- Gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Un prif ffocws yw gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, lawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysgu a dysgu

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gael i'w gweld yn **caerdydd.gov.uk/caerdydd2030**

### Strategaeth Cynhwysiant

Mae'r Strategaeth Cynhwysiant yn cyd-fynd â gwerthoedd Caerdydd 2030 ac yn amlinellu camau gweithredu ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid o dan bum maes allweddol:

- Dyfnhau ac ymgorffori ymarfer cynhwysol

- Cryfhau ymgysylltiad dysgwyr
- Darparu'r ddarpariaeth gywir a'r cymorth gorau
- Diwallu anghenion pob dysgwr
- Cefnogi a chryfhau'r gweithlu

Er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr, mae Caerdydd am gael system addysg lle gall y mwyafrif helaeth o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ffynnu a diwallu eu hanghenion yn eu hysgol brif ffrwd leol.

Pan fo darpariaeth arbenigol er budd gorau dysgwyr, yr uchelgais yw y dylai dysgwyr gael eu lleoli mewn ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd. Byddai hyn yn lleihau'r gwariant ar ddarpariaeth annibynnol fwy costus a all hefyd 'ddadleoli' dysgwyr o'u cymuned ehangach.

Mae Strategaeth Cynhwysiant Caerdydd ar gael i'w gweld yn **Strategaeth Cynhwysiant Addysg**

## Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033

Mae Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024–2033 wedi'i chynllunio i gryfhau system addysg Caerdydd yn unol â blaenoriaethau'r ddinas a amlinellir yn Cryfach, Tecach, Gwyrddach.

Mae'r strategaeth yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trefnu addysg sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac ymrwymiad Caerdydd i addysg deg, uchelgeisiol a chynaliadwy.

Mae Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033 ar gael i'w gweld yn **Strategaeth Buddsoddi Addysg 2024 i 2033**

## Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024-2033 Caerdydd

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru.

Mae'n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cynghorau, colegau ac awdurdodau esgobaethol.

Mae'r Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024-2033 yn nodi'r angen am fuddsoddiadau strategol sy'n cyd-fynd â nodau lleol a chenedlaethol i wella deilliannau addysgol.

Yr egwyddorion buddsoddi o fewn Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Caerdydd 2024-2033 yw:

(i) Cyd-fynd ag agendâu polisïau addysg lleol a chenedlaethol i wella deilliannau addysg

(ii) Targedu buddsoddiad drwy gynnal a chadw neu godi adeiladau newydd i wella cyflwr yr ystâd.

(iii) Sicrhau lefelau gwarged cynaliadwy.

(iv) Darparu lefel briodol o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

(v) Bodloni gofynion deddfwriaethol.

(vi) Manteisio i'r eithaf ar strategaethau "buddsoddi i arbed" er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar fenthyca.

(vii) Dilyn proses arfarnu opsiynau drylwyr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

Yn 2017, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n nodi'r ymagwedd hirdymor o gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), yn nodi targed deng mlynedd i gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg. Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei darged yn unol â'r ystod a roddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol cyffredinol.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yn cynnwys targedau i:

- Cynyddu niferoedd y plant 3 a 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud o un cam addysg i'r nesaf
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol
- Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegu
- Ehangu'r gweithlu addysgu Cymraeg

Mae Deilliant 6 y CSCA yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd ar gael i'w weld yn **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd.pdf**

## Yr Ymagwedd at Gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae ymagwedd effeithiol a chynhwysol at gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau ysgol-gyfan effeithiol o ran addysgu a dysgu, iechyd a lles emosiynol
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.
- Nodi'n gynnar yn effeithiol ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil er mwyn atal anghenion dysgu ychwanegol rhag dwysáu lle bynnag y bo modd.
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol, sydd â digon o le hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a'r cam dysgu
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb holistig, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach)
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd angen lleoliad arbenigol o ganlyniad i'w hanableddau dysgu wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio gwella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

## Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn gyfleuster o fewn ysgol brif ffrwd sydd wedi'i gynllunio i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) tra'n caniatáu iddynt integreiddio â'u cyfoedion lle bo hynny'n briodol ac yn addas.

Mae'r gyllideb a'r cyfrifoldeb dros reoli'r canolfannau yn cael ei ddirprwyo i gorff llywodraethu'r ysgol brif ffrwd, ond mae'r awdurdod lleol yn rheoli'r ceisiadau derbyn. Mae gwasanaethau arbenigol y Cyngor yn cydlynu ystod o hyfforddiant a dysgu proffesiynol ar gyfer staff canolfannau adnoddau ac yn cefnogi Cyrff Llywodraethu yn y broses o benodi a datblygu staff addysgu a chymorth arbenigol.

Mae nodweddion allweddol Canolfan Adnoddau Arbenigol yng Nghaerdydd, yn ogystal â'r ddarpariaeth mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd, yn cynnwys:

- **Gofod Pwrpasol:** Mae gan y ganolfan adnoddau ei hystafelloedd dosbarth a'i chyfleusterau ei hun yn yr ysgol prif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i ddysgwyr ag ADY
- **Staff cymwys, profiadol ac arbenigol:** Mae'r ganolfan wedi'i staffio gan athrawon a chynorthwywyr addysgu sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu amrywiol
- **Gwasanaethau Therapiwtig:** Gall y ganolfan adnoddau fanteisio ar wasanaethau fel Seicoleg Addysgol, Timau Athrawon Arbenigol, Therapi Iaith a lleferydd a Therapi Galwedigaethol i gefnogi datblygiad cyfannol dysgwyr
- **Maint Dosbarthiadau Bach a chymhareb uwch staff:dysgwyr:** Mae maint dosbarthiadau llai a mwy o staffio yn caniatáu i ddysgwyr dderbyn cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys amrywiaeth o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.
- **Cynhwysiant mewn dysgu prif ffrwd:** Mae'r seiliau awtistiaeth a'r seiliau nam clyw yn canolbwyntio ar ddysgwyr ag anghenion dysgu prif ffrwd. Mae cymarebau staff i ddysgwyr yn parhau i fod yn uchel, ond mae'r ffocws ar gefnogi cymaint o fynediad â phosibl i ddysgu prif ffrwd

Gellir gweld manylion y Ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Atodiad 1.

## Ysgolion Arbennig

Mae ysgolion arbennig yn darparu addysg a chymorth wedi'i deilwra i helpu dysgwyr ag ystod o anawsterau dysgu neu anableddau i gyflawni eu potensial llawn.

Mae nodweddion allweddol ysgol neu ganolfan arbennig yng Nghaerdydd, yn ogystal â nodweddion ysgol brif ffrwd, yn cynnwys:

- **Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol:** Mae ysgolion arbennig yn creu cynlluniau dysgu wedi'u teilwra ar gyfer pob dysgwr, gan fynd i'r afael â'u hanghenion unigryw a'u nodau.
- **Staff cymwys, profiadol ac arbenigol:** Mae'r ysgolion hyn yn cyflogi athrawon, therapyddion a staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda dysgwyr ag anableddau amrywiol
- **Cwricwlwm Addasol:** Mae'r cwricwlwm wedi'i addasu i ddarparu ar gyfer gwahanol arddulliau a galluoedd dysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at y Cwricwlwm i Gymru.
- **Technoleg Gynorthwyol:** Mae ysgolion arbennig yn defnyddio technoleg ac offer i gynorthwyo dysgu, megis dyfeisiau cyfathrebu, meddalwedd addasol, ac offer arbenigol

- **Maint Dosbarthiadau Bach a chymhareb uwch staff:dysgwyr:** Mae maint dosbarthiadau llai a mwy o staffio yn caniatáu mwy o waith unigol, pâr a grŵp bach wedi'i deilwra i gefnogi anghenion penodol pob dysgwr
- **Gwasanaethau Therapiwtig:** Mae gan yr ysgolion arbennig fynediad at wasanaethau fel Seicoleg Addysgol, Therapi Iaith a Lleferydd a Therapi Galwedigaethol i gefnogi datblygiad cyfannol dysgwyr.

Mae manylion darpariaeth ysgolion arbennig ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth i'w gweld yn Atodiad 1.

## Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol.

Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbenigol.

Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgolion arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol hefyd wedi cynyddu
- Mwy o achosion ac o gofnodi ynghlwm ag anghenion penodol fel awtistiaeth, ADCG (ADHD), anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

# Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth

## Darpariaeth bresennol

Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn cynnal pedair ysgol arbennig a deuddeg Canolfan Adnoddau Arbenigol i blant cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth.

**Mae Tabl 3 yn nodi'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghaerdydd.**

| Tabl 3: Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth yng Nghaerdydd 2025/26 | | |
|---|---|---|
| **Ysgol** | **Ystod Oedran** | **Lleoedd Dynodedig** |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | 4-11 | 98 |
| Ysgol Arbennig Riverbank | 4-11 | 78** |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | 3-19 | 240 |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | 11-19 | 180** |
| Ysgol Gynradd Bryn Hafod (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Greenway (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Llanedern (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 30 |
| Ysgol Gynradd Marlborough (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 30 |
| Ysgol Gynradd Moorland (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Severn (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 4-11 | 20 |
| Tŷ Calon, (Canolfan Adnoddau Arbenigol) Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd | 11-19 | 100 |
| Ysgol Uwchradd Willows (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | **11-19** | **30** |
| Ysgol Gynradd Windsor Clive (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | **4-11** | **20** |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | **11-19** | **30** |
| Ysgol Gynradd Pwll Coch (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | **4-11** | **20** |

**Bydd lleoedd dynodedig yn Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn cynyddu i 112 o leoedd a 240 o leoedd yn y drefn honno, ar ôl y trosglwyddo i safle Campws Cymunedol y Tyllgoed yn 2026.

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael.  Mae nifer y plant a fyddai'n elwa o le wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac amcanestynol y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig na Chanolfannau Addysg Arbenigol yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol.

Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn i ddysgwyr o bob oed oedd £15.4m yn 2024/25.  Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar £16.9m.

Byddai ehangu darpariaeth a gynhelir gan y Cyngor yn fwy cost-effeithiol na dibyniaeth barhaus ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.

## Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol


Mewn rhai ardaloedd yng Nghaerdydd nid oes digon o leoedd arbenigol i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.  Gall hyn beri anfantais i ddysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.

Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae darpariaeth wedi'i lleoli neu efallai na fyddant yn gallu teithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Er bod trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i blant o'r fath, mae anfon plentyn ifanc i'r ysgol mewn ardal anghyfarwydd yn benderfyniad anodd i rieni/gofalwyr.

Byddai dosbarthiad gwell o leoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ledled y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion.  Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

# Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2025/26



## Galw am leoedd

Ym mis Ebrill 2025, cynhaliodd y Cyngor ddadansoddiad o ddysgwyr sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) y mae angen iddynt gael eu lleoli mewn darpariaeth arbenigol.

Roedd hyn yn cynnwys dysgwr sy'n byw yng Nghaerdydd a Phlant sy'n Derbyn Gofal y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol drostynt sydd efallai yn byw y tu allan i ardal y Cyngor ac yn mynychu lleoliadau a gynhelir neu rai annibynnol.

Roedd y dadansoddiad yn cynnwys:

- Dysgwyr sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol a gafodd eu lleoli mewn darpariaeth arbenigol a gynhelir, darpariaeth y tu allan i'r sir neu annibynnol
- Dysgwyr o oed ysgol statudol nad yw lleoliad arbenigol wedi dechrau ar eu cyfer eto
- Dysgwyr sydd wedi'u cofrestru fel Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), ond sydd heb eu lleoli mewn darpariaeth arbenigol
- Dysgwyr sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC)

Cyflwynwyd arolwg i ysgolion ym mis Mai a mis Mehefin 2025 i nodi dysgwyr yn ôl grŵp oedran a allai fod angen lleoliadau arbenigol arnynt o fewn y flwyddyn ysgol nesaf, a'u prif angen dysgu ychwanegol. Roedd hyn yn ategu'r data ar ddysgwyr yr oedd asesiad ffurfiol eisoes wedi'i wneud ar eu cyfer.

Gellir plotio cymhariaeth flynyddol o'r data uchod â chyfanswm poblogaeth y disgyblion i nodi tueddiadau, ac i lywio'r 'galw am leoedd' a ragwelir yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae'r trosi diweddar o'r categori Anghenion Addysgol Arbennig i Anghenion Dysgu Ychwanegol yn golygu nad oes data digon cyson i blotio tueddiadau ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, gellir plotio sefyllfaoedd wedi'u modelu yn erbyn y boblogaeth ddisgyblion amcanestynol i nodi effaith gymharol twf pellach.

Gan ddefnyddio data cofrestru meddygon teulu'r GIG, mae data poblogaeth y cyfnod cynradd (4 i 11 oed) wedi'i fodelu hyd at 2027/28. Y tu hwnt i hyn, mae modelu yn cynnwys estyniad o gyfraddau genedigaethau diweddar.

Cyflwynir dadansoddiad cryno yn ôl cyfnod oedran yn hytrach na grŵp blwyddyn i gyfrif am feintiau carfan bach, lleoliadau mewn cyfnodau dysgu, a'r duedd i amrywio mwy mewn carfanau llai.

### Galw am leoedd mewn darpariaeth arbenigol oed cynradd

Mae Tabl 4 yn nodi capasiti ffurfiol darpariaeth ysgolion arbennig ar gyfer dysgwyr oedran cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd a'r galw a ragwelir yn y dyfodol.

Mae gan ddysgwyr mewn darpariaeth o'r fath un neu fwy o anghenion yn y meysydd canlynol:

- Lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Anhawster dysgu penodol
- Anghenion corfforol, meddygol neu synhwyraidd (CM / ADDLl)
- Awtistiaeth.

Cyfanswm capasiti dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yw 240 o leoedd. At ddibenion dadansoddi, priodolir 80 o leoedd i ddarpariaeth gynradd. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2025, roedd 89 o ddysgwyr oed cynradd wedi eu cofrestru.

**Tabl 4**

| Tabl 4 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meadowbank | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 |
| Riverbank | 78 | 78 | 112 | 112 | 112 | 112 | 112 | 112 |
| The Hollies | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 |
| Tŷ Gwyn (cyfnod oed cynradd) | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 |
| **Cyfanswm Capasiti Dynodedig** | **406** | **406** | **440** | **440** | **440** | **440** | **440** | **440** |
| Trefniadau dros dro | -4 | 42 | 45 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Capasiti Gweithredol** | **402** | **448** | **485** | **440** | **440** | **440** | **440** | **440** |
| NAG / Amcanestyniadau - Anghenion Cymhleth | 602 | 616 | 631 | 640 | 651 | 662 | 673 | 684 |
| NAG / Amcanestyniadau Anghenion Cymhleth gan gynnwys CM / ADDLl | 56 | 57 | 59 | 60 | 61 | 62 | 63 | 64 |
| **Cyfanswm NAG / Galw amcanestynol** | **658** | **674** | **689** | **700** | **712** | **724** | **736** | **748** |
| **Gwarged / Diffyg** | **-256** | **-226** | **-204** | **-260** | **-272** | **-284** | **-296** | **-308** |

Mae Tabl 5 yn nodi capasiti ffurfiol darpariaeth CAAau ar gyfer dysgwyr oedran cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd a’r galw amcanestynol yn y dyfodol.

| Tabl 5 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CAA Ysgol Gynradd Bryn Hafod | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| CAA Ysgol Gynradd Greenway | 0 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| CAA Ysgol Gynradd Llanedern | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| CAA Ysgol Gynradd Llanisien Fach | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| CAA Ysgol Gynradd Marlborough | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| CAA Ysgol Gynradd Moorland | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| CAA Ysgol Gynradd Severn | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| CAA Ysgol Gynradd Windsor Clive | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| CAA Ysgol Gymraeg Pwll Coch | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| **Cyfanswm Capasiti Dynodedig** | **180** | **200** | **200** | **200** | **200** | **200** | **200** | **200** |
| Trefniadau dros dro | 0 | 13 | -2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Capasiti Gweithredol** | **180** | **213** | **198** | **200** | **200** | **200** | **200** | **200** |
| NAG / Amcanestyniadau ADC / ACC | 196 | 201 | 205 | 208 | 212 | 216 | 219 | 223 |
| **Cyfanswm NAG / Galw amcanestynol** | **196** | **201** | **205** | **208** | **212** | **216** | **219** | **223** |
| **Gwarged / Diffyg** | **-16** | **12** | **-7** | **-8** | **-12** | **-16** | **-19** | **-23** |

**Galw am leoedd mewn darpariaeth arbenigol uwchradd**

Mae Tabl 6 yn nodi capasiti ffurfiol darpariaeth ysgolion arbennig ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd/ôl-16 ag Anghenion Dysgu Cymhleth sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd a'r galw a ragwelir yn y dyfodol.

Cyfanswm capasiti dynodedig Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yw 240 o leoedd. At ddibenion dadansoddi, priodolir 160 o leoedd i ddarpariaeth oedran uwchradd / ôl-16. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2025, nifer y dysgwyr oedran uwchradd/ôl-16 oed a gofrestrwyd oedd 165.

Mae Canolfan Marion a Thŷ Calon wedi'u dynodi'n ffurfiol fel Canolfannau Adnoddau Arbenigol. Mae'r Ganolfan Marion wedi'i dynodi'n ffurfiol fel darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Awtistiaeth ac mae anghenion lleoliadau yn y ganolfan hon yn cynnwys awtistiaeth ond hefyd yn cynnwys anghenion cymhleth. Mae Tŷ Calon wedi'i ddynodi'n ffurfiol fel darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth.

Fodd bynnag, mae llawer o'r trefniadau o fewn y canolfannau hyn yn cyd-fynd yn agosach â darpariaeth ysgolion arbennig, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Reoli a staffio
- Arfer gweithredol
- Integreiddio cyfyngedig â'r ysgol gynnal
- Maint y ddarpariaeth
- Anghenion Dysgu Ychwanegol dysgwyr sydd wedi'u cofrestru.

**At ddibenion dadansoddi, ystyrir pob un o'r rhain felly fel ysgol arbennig.**

**Tabl 6**

| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Gwyn | 160 | 160 | 160 | 160 | 160 | 160 | 160 | 160 |
| Woodlands | 180 | 180 | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 |
| Canolfan Marion, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf** | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 |
| Tŷ Calon, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| **Cyfanswm Capasiti Dynodedig** | **506** | **506** | **566** | **566** | **566** | **566** | **566** | **566** |
| Trefniadau dros dro | 16 | 41 | 27 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Capasiti Gweithredol** | **522** | **547** | **593** | **566** | **566** | **566** | **566** | **566** |
| NAG / Amcanestyniadau - Anghenion Cymhleth | 509 | 521 | 533 | 541 | 550 | 560 | 569 | 578 |
| NAG / Amcanestyniadau - Anghenion Cymhleth gan gynnwys CM / ADDLl | 138 | 141 | 145 | 147 | 149 | 152 | 154 | 157 |
| **Cyfanswm NAG / Galw amcanestynol** | **647** | **662** | **678** | **688** | **700** | **712** | **723** | **735** |
| **Gwarged / Diffyg** | **-125** | **-115** | **-85** | **-122** | **-134** | **-146** | **-157** | **-169** |

Mae Tabl 7 yn nodi capasiti ffurfiol darpariaeth CAA ADC Uwchradd sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ac eithrio Canolfan Marion a Thŷ Calon, a'r galw amcanestynol yn y dyfodol.

| Tabl 7 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CAA Ysgol Uwchradd Willows | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| CAA Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| **Cyfanswm Capasiti Dynodedig** | **60** | **60** | **60** | **60** | **60** | **60** | **60** | **60** |
| Trefniadau dros dro | -10 | -10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Capasiti Gweithredol** | **50** | **50** | **60** | **60** | **60** | **60** | **60** | **60** |
| **NAG / Y galw amcanestynol** | **103** | **106** | **108** | **110** | **112** | **114** | **115** | **117** |
| **Gwarged / Diffyg** | **-53** | **-56** | **-48** | **-50** | **-52** | **-54** | **-55** | **-57** |

## Cynyddu'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn darpariaeth arbenigol lle mae lleoliadau parhaol yn briodol.

Mae datblygu cynigion wedi'i flaenoriaethu i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn nifer a math y lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr Caerdydd.

Mae amrywiaeth o gynigion posib wedi'u nodi a byddant yn cael eu cyflwyno fesul cam i ganiatáu ar gyfer datblygu cynigion ymhellach, adolygu data poblogaeth a'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol yn barhaus, y prosesau statudol angenrheidiol a gweithredu effeithiol.

Mae cam cynigion cychwynnol i fynd i'r afael â'r galw uniongyrchol am leoedd Anghenion Dysgu Cymhleth wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori hon.

Mae cam cychwynnol cynigion i fynd i'r afael â'r galw am leoedd Awtistiaeth / Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol ac Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol hefyd yn destun ymgynghori gyda manylion ar gael yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae'r cynigion yn ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cael gwared ar leoedd dros ben prif ffrwd mewn adeiladau presennol, ac ychwanegu at safleoedd ysgol ac adeiladau ledled y ddinas, wrth gynyddu nifer y lleoedd arbenigol sydd ar gael o fewn amserlen resymol.

Byddai'r cynigion hyn yn darparu 262 o leoedd arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth parhaol ychwanegol.

Mae'r ystod o gynigion yn canolbwyntio ar gefnogi disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd, lle bo hynny'n briodol, ac ar dwf cynaliadwy darpariaeth arbenigol sefydledig a llwyddiannus.

Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth y Cyngor ar lefydd y tu allan i'r sir a rhai annibynnol yn y blynyddoedd i ddod.

Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth, i gyd-fynd yn agosach â'r angen amcanestynol am leoedd, yn galluogi nifer fwy o ddysgwyr i gael eu lleoli mewn darpariaeth sydd o fewn neu'n agosach at eu cymuned leol ac yn lleihau amseroedd teithio.

Bydd cynigion pellach i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oed cynradd ac uwchradd, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio safleoedd ac adeiladau ysgolion presennol, yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn 2026, a byddan nhw'n ffurfio rhan o ymgynghoriad ar wahan.

# Ysgol Gynradd Adamsdown



# Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Adamsdown

Mae Ysgol Gynradd Adamsdown yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg i ddisgyblion 3 - 11 oed. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar System Street, Adamsdown, Caerdydd, CF24 0JF.




Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth, cynigir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol newydd â 10 lle yn Ysgol Gynradd Adamsdown o fis Ionawr 2027.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn adeiladau presennol yr ysgol.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 8 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Adamsdown

| Ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | 420 | 60 | 80 | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Adamsdown yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 327 o ddisgyblion oed cynradd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2025.

## Y galw am leoedd prif ffrwd yn yr ysgol

Mae Tabl 9 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr ar gyfer Ysgol Gynradd Adamsdown.

**Tabl 9: Niferoedd diweddar ac amcanestynol ar gofrestr Ysgol Gynradd Adamsdown - disgyblion oed cynradd**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 |
| Ysgol Gynradd Adamsdown | 353 | 363 | 345 | 353 | 327 | 315 | 310 | 292 | 276 | 259 |

* Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 10: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Cafodd Ysgol Gynradd Adamsdown sgôr diweddar o B ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi datblygiad darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol.

## Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

Mae'r mwyafrif o ysgolion ledled y ddinas wedi gweld eu niferoedd yn gostwng yn y blynyddoedd diwethaf sydd ynghlwm â'r gyfradd geni isel. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor ac ysgolion weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r adeiladau sydd ar gael i ddiwallu anghenion disgyblion orau.
Mae'r Cyngor wedi datblygu manyleb ar gyfer canolfannau adnoddau y gellir eu haddasu ar gyfer gwahanol leoliadau. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i nodi mannau priodol yn yr adeiladau presennol, gyda buddsoddiad priodol wedi ei ddarparu i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas at y diben.

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn golygu paratoi ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd anogol, gan gynnwys ystafell i neilltuo er mwyn i blant hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Adamsdown i gytuno a bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynllun adnewyddu sy'n ail-bwrpasu gofod ystafelloedd dosbarth sbâr.

Byddai digon o leoedd yn dal i gael eu cadw yn yr ysgol ac mewn ysgolion cyfagos i ddarparu ar gyfer y galw lleol am leoedd prif ffrwd.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Dîm Gwella Ysgolion Caerdydd yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Adamsdown.

Mae gan yr ysgol systemau cryf ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwella, sydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid. Mae gwerthusiadau yn defnyddio tystiolaeth amrywiol fel teithiau cerdded dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, adborth, arolygon, a data cynnydd i adnabod yn gywir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae cynllunio gwella yn cael ei yrru gan y gwerthusiadau hyn, gyda'r nod o godi safonau ac ansawdd addysgu, gydag arweinyddiaeth yn ymwneud yn gyson ar bob lefel.

Mae staff yn elwa o gyfleoedd a phartneriaethau dysgu proffesiynol, gan effeithio'n gadarnhaol ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae datblygu arweinyddiaeth, yn enwedig trwy hyfforddi a mentora, yn annog myfyrio, cydweithredu a thwf.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm wedi'i strwythuro'n dda sy'n diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn myfyrio'n rheolaidd ar ddysgu disgyblion, gan addasu eu haddysgu a chynnwys y cwricwlwm i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol. Mae'r model clwstwr, a gefnogir gan arferion asesu cryf, yn caniatáu gwahaniaethu effeithiol ac addysgu a dysgu cyson dda. Mae dysgu seiliedig ar ymchwilio wedi'i ymgorffori yn yr ystafell ddosbarth, gan ddarparu profiadau dilys a diddorol. Mae cydweithredu parhaus â'r clwstwr lleol yn cefnogi datblygu'r cwricwlwm, ac mae cynllun â ffocws ar waith i wella'r Gymraeg, yn unol ag argymhellion Estyn.

Mae diogelu yn rhan sylfaenol o ethos yr ysgol, gyda disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'r gofal amdanynt yn dda. Mae'r ysgol yn cymryd dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â lles ac iechyd emosiynol, gan ddiwallu anghenion unigol yn effeithiol trwy wahanol arferion therapiwtig ac adferol. Mae ei ffocws cryf ar liniaru effeithiau tlodi a chefnogi teuluoedd yn gryfder nodedig. Mae dulliau adferol, gan gynnwys cyfryngu gan gyfoedion, yn helpu disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn annog cyfrifoldeb dros ei gilydd. Mae llais y disgybl yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gyda phwyllgorau yn darparu cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth a gwella ysgolion. Mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol ers arolygiad Estyn ym mis Mai 2023, ac mae bellach yn 91.7%.

Mae'r ysgol yn elwa o uwch dîm arwain medrus ac effeithiol sy'n gweithio ar y cyd i yrru cynnydd a gwelliant disgyblion. Gydag ethos cryf o gynhwysiant a chefnogaeth gadarn i ddisgyblion a theuluoedd, mae'r ysgol yn llwyddo i fynd i'r afael ag effaith tlodi ac yn meithrin ysbryd cymunedol cryf. Mae rolau arwain wedi'u strwythuro'n glir, gan hwyluso cyfraniadau ystyrlon gan arweinwyr canol, tra bod uwch arweinwyr yn blaenoriaethu datblygu capasiti arwain trwy gefnogaeth a datblygiad proffesiynol. Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan weithredol ac yn deall blaenoriaethau'r ysgol yn dda.

Rhoddodd arolygiad diweddaraf Estyn ym mis Mehefin 2023 drosolwg o'r ysgol fel a ganlyn:

Mae Ysgol Gynradd Adamsdown yn darparu amgylchedd cynnes, cynhwysol lle mae disgyblion yn ffynnu'n academaidd ac yn emosiynol. Mae ei statws Ysgol Noddfa yn sail gref i gefnogi llesiant a chaffael iaith, yn enwedig i ddisgyblion o wledydd yr effeithir arnynt gan wrthdaro.

Mae'r ysgol yn meithrin uchelgais, parch a hapusrwydd trwy feithrin partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol, yn siapio eu dysgu yn weithredol, ac yn datblygu dealltwriaeth ddofn o gysyniadau a'u llwybrau yn y dyfodol.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo tegwch, cyfiawnder ac empathi, er bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn gyfyngedig.

Mae staff yn elwa o ddatblygiad proffesiynol cryf, sy'n cyfrannu at welliant parhaus, ond nid yw arweinwyr eto wedi dechrau rhannu eu hymagwedd at y cwricwlwm yn ehangach i gefnogi ysgolion eraill.

Roedd canfyddiadau'r arolygiad o ran cynnydd a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn yr ysgol yn gadarnhaol:

- Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu o'u gwahanol fannau cychwyn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion ag anghenion dysgu

ychwanegol yn ymgymryd â rolau arwain o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6.

- Mae athrawon yn deall natur unigol yr ysgol ac anghenion, cymhleth yn aml, y disgyblion yn dda. Maent yn dylunio dysgu sy'n diwallu anghenion pob disgybl yn feddylgar ac yn sensitif ac yn eu galluogi i wneud cysylltiadau cryf yn eu dysgu trwy ystod ddiddorol o brofiadau dilys a pherthnasol.

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn bodloni gofynion statudol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynydd ADY) yn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a monitro'r cynnydd y mae disgyblion ag ADY yn ei wneud. Mae hyn yn galluogi staff i addasu cynllunio, addysgu ac ymyrraeth yn briodol i ddiwallu anghenion disgyblion.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma:

Ysgol Gynradd Adamsdown - Estyn **(CYM)**

Ysgol Gynradd Adamsdown - Estyn **(SAES)**

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar ansawdd na safon yr addysg yn yr ysgol.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Byddai'r lleoliad yn darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol. Bydd gan bob dysgwr sy'n cael ei leoli yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol arfaethedig Gynllun Datblygu Unigol, sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth Canolfannau Adnoddau Arbenigol wedi ei ddirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r ymagwedd ysgol gyfan at reolaeth ac arweinyddiaeth a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall y Cyngor ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol i Benaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

# Materion Adnoddau Dynol

Byddai'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Adamsdown yn gofyn bod y Corff Llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Mae trosolwg cryno o ofynion staffio ac adnoddau ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd fel a ganlyn:

- 10 disgybl fesul dosbarth
- Un athro, 0.5 CALU, 2.5 Cynorthwy-ydd Addysgu Gradd 4, Un Goruchwyliwr Canol Dydd fesul dosbarth
- Bydd un athro hefyd yn cael ei ariannu fel rôl athro arweiniol gyda lwfans CAD
- Mae'r holl swyddi'n cael eu hariannu'n llawn ac yn cynnwys lwfans ADY
- Cyllid penodol ar gyfer adnoddau dysgu pob disgybl
- Mae'r staff yn cael eu cyflogi gan y Corff Llywodraethu, ac yn ddarostyngedig i bolisïau'r ysgol
- Mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn chwarae rôl gynghorol ar benodi athrawon
- Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol
- Dyrannu amser Seicoleg Addysg
- Mae'r gronfa gydgyflenwi yn darparu yswiriant diwrnod cyntaf i staff CAA

Byddai Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.

# Dweud eich dweud

Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion.

Gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Fel arall, gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Mae manylion y rhain ar dudalen8.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 26 Mawrth 2026.**

# Ysgol Gynradd Pencaerau



# Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pencaerau

Mae Ysgol Gynradd Pencaerau yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ar gyfer dysgwyr 3 - 11 oed.  Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Cyntwell Ave, Caerau, Caerdydd, CF5 5QN.



Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth, cynigir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol newydd ag 20 lle i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pencaerau o fis Ionawr 2027.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn adeiladau presennol yr ysgol.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 11 isod yn rhoi manylion y lleoedd prif ffrwd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Pencaerau**

| Ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Pencaerau | 210 | 30 | 48 | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Pencaerau yw 210 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 202 o ddisgyblion oed cynradd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2025.

## Y galw am leoedd prif ffrwd yn yr ysgol

Mae Tabl 12 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr ar gyfer Ysgol Gynradd Pencaerau - disgyblion oed cynradd

**Tabl 12: Niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Pencaerau - disgyblion oed cynradd**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | 208 | 207 | 209 | 205 | 202 | 201 | 200 | 201 | 200 | 200 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 13: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da  Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol.  Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn.  Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Cafodd Ysgol Gynradd Pencaerau sgôr diweddar o B ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi datblygiad darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol.

## Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

Mae'r mwyafrif o ysgolion ledled y ddinas wedi gweld eu niferoedd yn gostwng yn y blynyddoedd diwethaf sydd ynghlwm â'r gyfradd geni isel.   Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor ac ysgolion weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r adeiladau sydd ar gael i ddiwallu anghenion disgyblion orau.

Mae'r Cyngor wedi datblygu manyleb ar gyfer canolfannau adnoddau y gellir eu haddasu ar gyfer gwahanol leoliadau.   Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i glustnodi mannau priodol yn yr adeiladau presennol gyda buddsoddiad priodol i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas at y diben.

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn golygu paratoi dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell i neilltuo er mwyn i blant hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pencaerau i gytuno a bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynllun adnewyddu sy'n ail-bwrpasu gofod ystafelloedd dosbarth sbâr.

Byddai digon o leoedd yn dal i gael eu cadw yn yr ysgol ac mewn ysgolion cyfagos i ddarparu ar gyfer y galw lleol am leoedd prif ffrwd.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Dîm Gwella Ysgolion Caerdydd yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Pencaerau.

Mae hunanwerthuso a gwella ysgolion bellach wedi'u sefydlu'n dda, dan arweiniad y pennaeth ac yn cynnwys ystod ehangach o staff, athrawon a llywodraethwyr. Mae adolygiadau rheolaidd a chyflwyno wythnosau hunanwerthuso wedi sicrhau asesiadau gonest, sy'n nodi'n gywir gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r canfyddiadau hyn yn llywio'n uniongyrchol gynllun gwella wedi'i lunio'n dda, wedi'i strwythuro o amgylch meysydd arolygu allweddol ac wedi ei oruchwylio gan uwch arweinwyr.

Mae addysgu a dysgu wedi elwa o'r defnydd o fatrics asesu a gwell dadansoddi ar ddata, gan helpu staff i olrhain cynnydd disgyblion a mireinio'r ddarpariaeth. Mae datblygiadau mewn llythrennedd, rhifedd, Cymraeg a sgiliau digidol yn parhau, gyda staff yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr allanol. Mae'r siarter addysgu a dysgu wedi sefydlu cysondeb, ac mae gwaith dylunio cwricwlwm yn mynd rhagddo, gyda chydweithrediad ymhlith athrawon yn gyrru cynllunio cwricwlwm pwrpasol.

Mae lles disgyblion yn parhau i fod yn ganolog i ethos yr ysgol, gyda chefnogaeth darpariaeth o ansawdd uchel ac ymyriadau wedi'u targedu. Mae gwaharddiadau yn isel ac mae adnoddau arbenigol newydd wedi'u cyflwyno. Mae'r presenoldeb yn is na chyfartaledd Caerdydd, ond mae'r ysgol yn cyflogi ystod o strategaethau a staff i gefnogi gwelliant. Mae hawliau disgyblion yn cael eu hyrwyddo trwy gyfleoedd arweinyddiaeth a'r wobr Arian am Barchu Hawliau.

Mae arweinyddiaeth yn glir ac yn benderfynol, gyda chyfrifoldebau wedi'u dosbarthu'n eang ymhlith staff a llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol weledigaeth gref, gynhwysol, wedi'i hategu gan gynllun gwella cadarn. Mae datblygiad proffesiynol i staff yn cael ei flaenoriaethu, gan gynnwys hyfforddiant allanol a chyfnewidiadau rhyngwladol. Mae gwaith clwstwr a phartneriaeth yn ehangu, gyda grwpiau cydweithredol newydd eisoes yn cael effaith gadarnhaol, yn enwedig o ran presenoldeb a darllen.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Gorffennaf 2019 barnwyd bod safonau, llesiant ac ymagweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheoli yn dda.

Roedd canfyddiadau'r arolygiad o ran cynnydd a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn yr ysgol yn gadarnhaol:

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- Mae'r cydlynwyr anghenion arbennig yn dadansoddi data'n ofalus i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u dysgu neu eu lles.
- Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y cydlynwyr anghenion arbennig ac aelodau eraill o staff yn eu galluogi i rannu cyngor adeiladol ar sut i gefnogi disgyblion a glustnodwyd.
- Mae staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi'n hynod dda yn darparu ymyriadau o ansawdd uchel sy'n gwella llythrennedd, rhifedd neu sgiliau personol disgyblion.
- O ganlyniad, mae bron pob disgybl wedi'i dargedu yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma:

**Ysgol Gynradd Pencaerau - Estyn (CYM)**
**Ysgol Gynradd Pencaerau - Estyn (SAES)**

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar ansawdd na safon yr addysg yn yr ysgol.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Byddai'r lleoliad yn darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol. Bydd gan bob dysgwr sy'n cael ei leoli yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w roi ar waith er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth Canolfannau Adnoddau Arbenigol wedi ei ddirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r ymagwedd ysgol gyfan at reolaeth ac arweinyddiaeth a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall y Cyngor ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol i Benaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Pencaerau yn gofyn bod y Corff Llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Mae trosolwg cryno o ofynion staffio ac adnoddau ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth fel a ganlyn:

- 10 disgybl fesul dosbarth
- Un athro, 0.5 CALU, 2.5 Cynorthwy-ydd Addysgu Gradd 4, Un Goruchwyliwr Canol Dydd fesul dosbarth
- Bydd un athro hefyd yn cael ei ariannu fel rôl athro arweiniol gyda lwfans CAD
- Mae'r holl swyddi'n cael eu hariannu'n llawn ac yn cynnwys lwfans ADY
- Cyllid penodol ar gyfer adnoddau dysgu pob disgybl
- Mae'r staff yn cael eu cyflogi gan y Corff Llywodraethu, ac yn ddarostyngedig i bolisïau'r ysgol
- Mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn chwarae rôl gynghorol ar benodi athrawon
- Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol
- Dyrannu amser Seicoleg Addysg
- Mae'r gronfa gydgyflenwi yn darparu yswiriant diwrnod cyntaf i staff CAA

Byddai Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.

## Dweud eich dweud

Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion.

Gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Fel arall, gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Mae manylion y rhain ar dudalen8.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 26 Mawrth 2026.**

# Ysgol Gynradd Peter Lea



# Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Peter Lea

Mae Ysgol Gynradd Peter Lea yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol yn Carter Place, Y Tyllgoed, caerdydd, CF5 3NP.



Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth, cynigir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol newydd ag 20 lle i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Peter Lea o fis Medi 2027.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn adeiladau presennol yr ysgol.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

**Tabl 14: Lleoedd yn Ysgol Gynradd Peter Lea**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Peter Lea | 320 | 45 | 80 | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Peter Lea yw 320 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 245 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2025.

## Y galw am leoedd prif ffrwd yn yr ysgol

**Mae Tabl 15 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr ar gyfer Ysgol Gynradd Peter Lea.**

**Tabl 15: Niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Peter Lea - disgyblion oed cynradd**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | 292 | 285 | 278 | 269 | 245 | 228 | 214 | 199 | 189 | 185 |

* Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 16: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Yn fwyaf diweddar, cafodd Ysgol Gynradd Peter Lea sgôr o C+ am gyflwr a B am addasrwydd. Byddai'r safle, a seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi datblygiad darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol.

## Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

Mae'r mwyafrif o ysgolion ledled y ddinas wedi gweld eu niferoedd yn gostwng yn y blynyddoedd diwethaf sydd ynghlwm â'r gyfradd geni isel. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor ac ysgolion weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r adeiladau sydd ar gael i ddiwallu anghenion disgyblion orau.

Mae'r Cyngor wedi datblygu manyleb ar gyfer canolfannau adnoddau y gellir eu haddasu ar gyfer gwahanol leoliadau. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i glustnodi mannau priodol yn yr adeiladau presennol gyda buddsoddiad priodol i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas at y diben.

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn golygu paratoi dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell i neilltuo er mwyn i blant hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Peter Lea i gytuno a bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynllun adnewyddu sy'n ail-bwrpasu gofod ystafelloedd dosbarth sydd dros ben.

Byddai digon o leoedd yn dal i gael eu cadw yn yr ysgol ac mewn ysgolion cyfagos i ddarparu ar gyfer y galw lleol am leoedd prif ffrwd.

## Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Dîm Gwella Ysgolion Caerdydd yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Peter Lea.

Mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau a meysydd i'w gwella yn rheolaidd gan ddefnyddio adborth ac arsylwadau gwersi. Mae'r broses barhaus hon yn sicrhau safonau addysgu uchel ac yn diwallu anghenion dysgwyr. Mae blaenoriaethau â ffocws yn cefnogi cynnydd yn neilliannau disgyblion, ansawdd addysgu, a llesiant, gydag ymgysylltiad a datblygiad proffesiynol staff. Mae partneriaethau gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned hefyd yn gwella dysgu a llesiant disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau addysgu effeithiol, cyson ar draws pob dosbarth, gan ddefnyddio strategaethau gwersi amrywiol ac asesiadau arloesol i dracio cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys hunanasesu a gyda chymheiriaid, i gefnogi twf academaidd a phersonol. Mae gwersi wedi'u cynllunio'n ofalus i feithrin sgiliau a gwybodaeth, gan feithrin amgylchedd lle mae disgyblion yn llawn cymhelliant, yn wydn ac yn ymgysylltu.

Mae diogelu yn cael ei flaenoriaethu drwy broses hunanasesu cynhwysfawr, gyda staff yn wyliadwrus wrth gefnogi lles disgyblion. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin yn deg, ac mae perthnasoedd cadarnhaol yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Rhoddir cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu sgiliau arwain drwy'r Senedd Ysgol.

Mae'r pennaeth yn rhoi cyfeiriad clir ac yn gosod disgwyliadau uchel, gyda chefnogaeth monitro cadarn ac arweinyddiaeth wedi ei dosbarthu. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael ag argymhellion yn gyflym ac yn rheoli adnoddau'n strategol, gan gysylltu gwariant â blaenoriaethau gwella ar gyfer yr effaith fwyaf posibl. Mae llywodraethwyr yn rhagweithiol, yn wybodus, ac yn dal arweinwyr i gyfrif yn effeithiol, gan sicrhau cynnydd cryf i bob disgybl.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Gorffennaf 2018, barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

Roedd canfyddiadau'r arolygiad o ran cynnydd a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn yr ysgol yn gadarnhaol:

- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn darpariaeth effeithiol sy'n eu helpu i wneud cynnydd da.
- Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd gwaith da a phartneriaethau gydag amrywiaeth o asiantaethau ac yn ystyried eu cyngor yn fuddiol.
- Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gweithdai y mae'r ysgol yn eu darparu ar sut i gefnogi dysgu a llesiant plant gartref. Er enghraifft, rhannodd yr ysgol gyda rhieni'r dull adferol o reoli ymddygiad a gyflwynwyd yn ddiweddar.
- Mae cymorth defnyddiol i deuluoedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma:

**Ysgol Gynradd Peter Lea - Estyn (CYM)**

**Ysgol Gynradd Peter Lea - Estyn (SAES)**

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd ehangu'r ddarpariaeth yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn cael effaith negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar addysgu a phrofiadau dysgu yn yr ysgol.

Byddai'r lleoliad yn darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol. Bydd gan bob dysgwr sy'n cael ei leoli yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w roi ar waith er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth Canolfannau Adnoddau Arbenigol wedi ei ddirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r ymagwedd ysgol gyfan at reolaeth ac arweinyddiaeth a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall y Cyngor ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol i Benaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai'r cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Peter Lea yn gofyn bod y Corff Llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Mae trosolwg cryno o ofynion staffio ac adnoddau ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd fel a ganlyn:

- 10 disgybl fesul dosbarth
- Un athro, 0.5 CALU, 2.5 Cynorthwy-ydd Addysgu Gradd 4, Un Goruchwyliwr Canol Dydd fesul dosbarth
- Bydd un athro hefyd yn cael ei ariannu fel rôl athro arweiniol, gyda lwfans CAD
- Mae'r holl swyddi'n cael eu hariannu'n llawn ac yn cynnwys lwfans ADY
- Cyllid penodol ar gyfer adnoddau dysgu pob disgybl
- Mae'r staff yn cael eu cyflogi gan y Corff Llywodraethu, ac yn ddarostyngedig i bolisïau'r ysgol
- Mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn chwarae rôl gynghorol ar benodi athrawon
- Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol
- Dyraniad Seicoleg Addysg
- Mae'r gronfa gydgyflenwi yn darparu yswiriant diwrnod cyntaf i staff CAA

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.

## Dweud eich dweud

Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion.

Gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Fel arall, gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Mae manylion y rhain ar dudalen8.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 26 Mawrth 2026.**



# Ysgol Arbennig Meadowbank

# Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Meadowbank

Mae Ysgol Arbennig Meadowbank yn ysgol arbennig cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 4 – 11 oed gydag anawsterau lleferydd ac iaith ac anghenion cyfathrebu ac anghenion dysgu cymhleth.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Heol Colwill, Gabalfa, CF14 2QQ.



Ymgynghorodd y Cyngor yn 2021/22 ar gynnig i gynyddu capasiti'r ysgol o 40 i 98 o leoedd o fis Medi 2022, a phenderfynwyd ar y cynnig gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2022.

Mae gwaith wedi'i wneud i ddarparu llety a chyfleusterau newydd ac addasu'r adeilad presennol, er mwyn hwyluso twf yr ysgol.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd ysgolion arbennig cynradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth, cynigir:

- Cynyddu'r nifer dynodedig yn Ysgol Arbennig Meadowbank o 98 i 110 o fis Ionawr 2027.

Cynigir y byddai'r disgyblion ychwanegol yn cael eu lletya yn yr adeiladau presennol.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth ysgolion arbennig Caerdydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Nid oes gan ysgolion arbennig cymunedol yng Nghymru gategori iaith dynodedig diofyn, yn ôl Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phob un o ysgolion arbennig Caerdydd gan gynnwys Ysgol Arbennig Meadowbank, a gydag ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y clustnodir eu bod yn gymwys i gael lle mewn ysgol arbennig lle mae angen neu y ffefrir addysg Gymraeg neu yn y ddwy iaith.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 17 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Arbennig Meadowbank**

| Enw'r Ysgol | Ystod Oedran | Categori'r Ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol |
|---|---|---|---|
| Ysgol Arbennig Meadowbank | 4-11 | Ysgol Arbennig | 98 |

Capasiti presennol Ysgol Arbennig Meadowbank yw 98 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 97 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2025.

## Y galw am leoedd ADY yn yr ysgol

**Mae Tabl 18 isod yn nodi manylion rhifau diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr yn Ysgol Arbennig Meadowbank**

| Tabl 18: Niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Arbennig Meadowbank | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | 40 | 50 | 62 | 75 | 97 | 97 | 110 | 110 | 110 | 110 |

* Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Table 19 Cyflwr and Addasrwydd Sgôrs**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Cafodd Ysgol Meadowbank sgôr diweddaraf o B ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi darpariaeth ysgol arbennig ehangach.

## Adeilad yr ysgol

Mae gwaith wedi'i wneud i ddarparu llety a chyfleusterau newydd ac addasu'r adeilad presennol, er mwyn hwyluso twf yr ysgol.

Mae digon o le ar gael ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y niferoedd yn yr ysgol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Dîm Gwella Ysgolion Caerdydd ynghylch ansawdd a safonau yn Ysgol Arbennig Meadowbank:

Mae hunanwerthuso yn Ysgol Meadowbank yn gywir ac wedi esblygu i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth y disgyblion. Mae monitro yn digwydd yn rheolaidd a thrylwyr, gyda goruchwyliaeth gan y partner gwella trwy weithgareddau fel adolygiadau dosbarth, edrych ar lyfrau a theithiau cerdded dysgu. Mae arweinwyr a staff yn defnyddio data disgyblion i nodi'r camau nesaf, gyda chefnogaeth systemau clir sy'n dangos ansawdd addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol wedi creu cwricwlwm wedi'i deilwra sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru ac yn ymgorffori iaith cwricwlwm meithrin LIC, gan gefnogi anghenion amrywiol ei disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r fframwaith hwn i gynnig lefelau amrywiol o ddarpariaeth. Mae dull pwrpasol Meadowbank yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn effeithiol ar draws gweithgareddau. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi datblygu ei theclyn asesu ei hun (The Rainbows System) sy'n helpu staff i olrhain lefelau dysgu presennol a chynllunio'r camau nesaf.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi datblygu system cynnydd disgyblion effeithiol iawn sy'n tracio cynnydd disgyblion o waelodlin unigol ac yn helpu staff i gynllunio'r camau nesaf ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol hefyd wedi cydweithio â chwmni TG i ddigideiddio'r system hon ar gyfer tracio cynnydd a mapio sgiliau. Mae eu teclyn pwrpasol yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi pob disgybl yn Meadowbank.

Mae gan y tîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda, gan alluogi pontio llyfn ar ôl ymadawiad aelod diweddar. Maent yn blaenoriaethu cynllunio a chefnogaeth staff effeithiol, tra'n chwilio am ddulliau newydd i helpu disgyblion cymhleth i lwyddo.

Roedd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol ym mis Tachwedd 2019 o'r farn bod llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu yn dda. Barnwyd bod y safonau, y profiad addysgu a dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn ddigonol ac angen eu gwella.

Barnodd adolygiad gan Estyn ym mis Ionawr 2022 bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o arolwg Cymal 28 Cafodd yr ysgol ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion oedd angen adolygiad Estyn. Ni fu unrhyw weithgareddau monitro pellach ynghlwm ag arolygiad Tachwedd 2019.

Mae'r adroddiad llawn a'r adolygiad dilynol i'w gweld yn:

**Ysgol Arbennig Meadowbank - Estyn** (CYM)

**Ysgol Arbennig Meadowbank - Estyn** (ENG)

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd yr ehangu arfaethedig yn cael effaith negyddol ar yr ysgol.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae'r lleoliad yn darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, lleferedd, iaith a chyfathrebu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol. Mae gan bob dysgwr yn Ysgol Arbennig Meadowbank Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol i Benaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Materion Adnoddau Dynol

Bydd y cynnydd arfaethedig yn nifer disgyblion yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiad.

Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

## Dweud eich dweud

Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion.

Gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Fel arall, gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio.  Mae manylion y rhain ar dudalen8.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 26 Mawrth 2026.**



# Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

# Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn a throsglwyddo'r ysgol i adeilad newydd yn Nhŷ Glas

Mae Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn gwasanaethu dysgwyr 3 i 19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu difrifol, awtistiaeth, ac anghenion meddygol cymhleth.

Wedi'i lleoli'n wreiddiol yng Nghyncoed, symudodd yr ysgol i safle pwrpasol yn Vincent Road, Caerau yn 2010.



Mae'r ysgol yn cynnig cyfleusterau arbenigol fel pyllau hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd, a mannau therapi, gyda chefnogaeth timau amlddisgyblaethol.

Mae'n derbyn disgyblion o bob rhan o Gaerdydd ac fe'i hehangwyd o 198 i 240 o leoedd yn 2022 ond ar hyn o bryd mae'n lletya 264 o ddysgwyr oherwydd y galw cynyddol.

Mae Arbennig Tŷ Gwyn wedi bod yn rhan o Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin gydag Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands ers mis Ionawr 2018. Mae Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands hefyd yn Vincent Road ar hyn o bryd, ar safleoedd cyfagos, ond bydd y ddwy ysgol hon yn trosglwyddo i adeilad newydd ar Gampws Cymunedol y Tyllgoed yn 2026.

Mae'r ysgol yn darparu darpariaeth arbenigol iawn nad yw ar gael mewn mannau eraill yng Nghaerdydd. Ychydig iawn o leoedd o'r math hwn o ddarpariaeth sy'n bodoli o fewn y sector annibynnol yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos.

Mae arolygon a gynhaliwyd yn 2024 a 2025 wedi nodi problemau adeiledd gydag adeiladau Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Mae ymchwiliadau pellach ar y gweill i asesu natur y pryderon, fodd bynnag nid oes pryderon Iechyd a Diogelwch uniongyrchol.

Er y gellid darparu ar gyfer rhai dysgwyr yn Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands, nid oes digon o gapasiti yn gyffredinol yn y tymor hir. Mae'r llety parhaol ar gyfer Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn gofyn am gyfleusterau arbenigol a chapasiti ar gyfer ehangu ymhellach.

Er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am leoedd arbenigol ac i ddarparu ar gyfer dysgwyr Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, mae'r Cyngor felly yn cynnig datblygu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn cyn gynted â phosibl.

Byddai trosglwyddo Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn i adeilad newydd ar safle newydd yn galluogi'r Cyngor i gynyddu capasiti'r ysgol, i ddiwallu anghenion dysgwyr ar y cyfle cyntaf posib. Byddai hefyd yn caniatáu i unrhyw waith angenrheidiol gael ei wneud ar safle gwag Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 2030 ymlaen, pan fydd y safle yn cael ei wagio ac i'r adeilad ddychwelyd i'w ddefnyddio ar gyfer darpariaeth arbenigol ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd ysgolion arbennig cynradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth, cynigir:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn o 240 o leoedd i 300 o leoedd, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol a'r adeilad gwag yn Ysgol Arbennig Riverbank, Vincent Road, Trelái am gyfnod pontio o fis Ionawr 2027.

- Byddai'r ysgol estynedig yn trosglwyddo i adeilad newydd ar safle Tŷ Glas yn Llanisien gyda chynnydd pellach mewn capasiti i 320 o leoedd o fis Medi 2030.

Er y byddai capasiti'r ysgol yn cael ei ffurfioli ar 300 o ddysgwyr o fis Ionawr 2027, a 320 o leoedd o fis Medi 2030, rhagwelir y byddai dysgwyr yn cael eu derbyn i'r ysgol yn raddol.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth ysgolion arbennig Caerdydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Nid oes gan ysgolion arbennig cymunedol yng Nghymru gategori iaith dynodedig diofyn, yn ôl Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phob un o ysgolion arbennig Caerdydd gan gynnwys Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, a gydag ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y clustnodir eu bod yn gymwys ar gyfer lle mewn ysgol arbennig lle mae angen neu y ffefrir addysg Gymraeg neu yn y ddwy iaith.

**Nifer y lleoedd yn yr ysgol**

**Mae Tabl 20 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn.**

| Tabl 20: Lleoedd yn Tŷ Ysgol Gwyn | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol | Ystod Oedran | Categori'r Ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | 3-19 | Ysgol Arbennig | 240 |

Capasiti presennol Ysgol Tŷ Gwyn yw 240 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 250 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2025

## Y galw am leoedd ADY yn yr ysgol

**Mae Tabl 21 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**

| Tabl 21: Niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn - disgyblion oed cynradd | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | 196 | 204 | 220 | 235 | 250 | 250 | 288 | 298 | 300 | 300 |

* Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Table 22 Cyflwr and Addasrwydd Sgôrs**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Roedd yr asesiad diweddaraf o Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, sy'n gyson â'r fethodoleg ar gyfer pob ysgol yng Nghaerdydd, wedi graddio'r ysgol fel C am gyflwr ac A am addasrwydd.

Fodd bynnag, mae arolygon a gynhaliwyd yn 2024 a 2025 wedi nodi problemau gydag adeiledd adeiladau Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Mae ymchwiliadau pellach ar y gweill i asesu natur y pryderon, fodd bynnag nid oes pryderon Iechyd a Diogelwch uniongyrchol.

## Safle Ysgol Arbennig Riverbank (Vincent Road)

Byddai Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn cynyddu i ddechrau o 240 i 300 o leoedd ym mis Ionawr 2027 gan ddefnyddio'r adeiladau ysgol presennol ar safle Ysgol Arbennig Riverbank yn Vincent Road. Bydd yr adeiladau hyn yn cael eu gwagio gan Ysgol Arbennig Riverbank yn haf 2026.

Cynigir y byddai adeilad presennol Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn darparu ar gyfer hyd at 265 o ddysgwyr yn ystod y cyfnod pontio cyn y trosglwyddo i safle Tŷ Glas.

Byddai adeiladau Riverbank yn darparu ar gyfer hyd at 35 o ddysgwyr Tŷ Gwyn, ac felly'n gweithredu ar 50% o'i niferoedd blaenorol.

Law yn llaw â buddsoddiad i adnewyddu adeilad Ysgol Arbennig Riverbank, byddai'r defnydd llai hwn yn sicrhau bod Riverbank yn addas at y diben, gan fynd i'r afael â'r sgôr addasrwydd. Cafodd yr adeilad ei raddio fel "C" ar gyfer cyflwr a "D" ar gyfer addasrwydd ar adeg yr arolwg diweddaraf yn 2018.

Rhagwelir y byddai'r Tŷ Gwyn estynedig yn trosglwyddo i safle Tŷ Glas o fis Medi 2030 yn dilyn cwblhau'r gwaith adeiladu.

## Safle Tŷ Glas, Llanisien

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o safleoedd posibl yng Nghaerdydd sy'n addas i ddatblygu ysgolion.

Mae safle Tŷ Glas yn Llanisien, a gaffaelwyd gan y Cyngor yn 2022, wedi'i glustnodi fel un sy'n briodol ar gyfer darpariaeth uwchradd a/neu arbennig.

Mae gwaith paratoi wedi'i wneud i alluogi datblygiad yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cynnig adleoli Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn i safle Tŷ Glas i ddarparu cyfleusterau modern, arbenigol iawn a lleihau'r tarfu ar addysgu a dysgu o fis Medi 2030 ymlaen.

Byddai'r Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn defnyddio rhan o safle Tŷ Glas gyda gweddill y safle yn cael ei gadw ar gyfer cynigion yn y dyfodol.

# Safle Tŷ Glas, Llanisien



### Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn ysgol

Byddai unrhyw adeiladau newydd yn bodloni amodau cyllido Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cynllunio yn unol â'r Adran Addysg; Canllawiau ardal sy'n nodi bod angen cynnwys y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol:

- Mannau addysgu
- Neuaddau / ardal fwyta mewnol ac allanol
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Staff a gweinyddiaeth
- Man storio
- Tai bach a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad, offer mawr a waliau mewnol
- Ardaloedd neilltuo i gefnogi gweithio mewn grwpiau bach / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nid yw'r broses ddylunio ar gyfer yr ysgol newydd wedi dechrau eto.

Cytunir ar ddyluniadau manwl gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu i'w gweithredu. Byddai mewnbwn plant a phobl ifanc i ddatblygu'r cynllun yn rhan annatod o weithredu'r prosiect ar bob cam.

Byddai cyfleoedd i randdeiliaid rhoi sylwadau ar gynlluniau manwl yn ystod y camau cyn cynllunio a chais cynllunio, pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

## Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Dîm Gwella Ysgolion Caerdydd ynghylch ansawdd a safonau yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn:

Mae cynllunio gwella'r ysgol yn systematig, gydag adolygiadau rheolaidd i fonitro cynnydd a gwneud addasiadau prydlon. Er bod sylwadau adroddiadau cyfredol yn bethau i'w nodi, mae'r fframwaith yn dangos ymrwymiad i werthuso wedi ei seilio ar dystiolaeth. Mae blaenoriaethau yn cyd-fynd â mewnbwn dysgwyr a safonau cenedlaethol, gan adlewyrchu diwylliant ymatebol.

Mae'r cwricwlwm yn ddifyr, wedi'i bersonoli, ac yn cefnogi datblygiad sgiliau allweddol gyda ffocws ar gynhwysiant. Dylai gwerthusiadau yn y dyfodol flaenoriaethu canlyniadau mesuradwy fel cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr, wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â newidiadau cwricwlwm a dulliau addysgu.

Mae'r ysgol yn meithrin amgylcheddau cefnogol ac yn blaenoriaethu lles ar y cyd â chynnydd academaidd, gan bwysleisio ymddiriedaeth a chydweithrediad rhwng staff a dysgwyr ar gyfer dull addysgol cyfannol.

Mae'r pennaeth yn dangos arweinyddiaeth gref, gan osod gweledigaeth glir sy'n siapio cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon wedi'i rhannu'n dda, gan greu diwylliant unedig sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus. Mae blaenoriaethau strategol yn canolbwyntio ar ddysgwyr ac yn cael eu gyrru gan werthoedd, gyda datblygiad arweinyddiaeth yn cefnogi cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn gyrru addysgu ac ansawdd y cwricwlwm, yn hyrwyddo twf proffesiynol, ac yn annog cydweithredu. Mae'r mentrau presennol yn cynnwys symud i system adolygu datblygiad proffesiynol a pharatoi ar gyfer newidiadau ar safle newydd yr ysgol.

Roedd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol ym mis Tachwedd 2022 o'r farn bod Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn gymuned hapus, ofalgar a diogel sy'n cefnogi ei disgyblion a'u teuluoedd yn eithriadol o dda. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu tawel a chroesawgar i'w disgyblion, sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau unigol a'u mannau cychwyn o ran eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Maent yn datblygu ystod gwerth chweil o sgiliau gwerthfawr sy'n eu helpu i wneud cynnydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol ac yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae'r cynnydd cryf hwn y mae disgyblion yn ei wneud dros amser yn nodwedd hynod effeithiol o'r ysgol

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma:

**Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn - Estyn (CYM)**

**Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn - Estyn (SAES)**

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd yr ehangu arfaethedig yn cael effaith negyddol ar yr ysgol.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae'r lleoliad yn darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr sy'n cael ei leoli yn y Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w roi ar waith er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

### Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol i Benaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Materion Adnoddau Dynol

Bydd y cynnydd arfaethedig yn nifer disgyblion yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiad.

Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

## Dweud eich dweud

Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion.

Gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Fel arall, gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Mae manylion y rhain ar dudalen8.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 26 Mawrth 2026.**

# Ysgol Uwchradd Woodlands



# Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Uwchradd Woodlands

Mae Ysgol Uwchradd Woodlands yn ysgol arbennig yn Vincent Road, Caerau.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod, o 11 - 19 oed, ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth.




Ymgynghorodd y Cyngor ym mis Chwefror/Mawrth 2019 ar gynnig i gynyddu capasiti'r ysgol o 140 i 240 o leoedd o fis Medi 2023, trwy adleoli'r ysgol i gyfleusterau pwrpasol newydd mwy o faint ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian. Penderfynwyd ar y cynnig gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2020.

Penderfynwyd fod y cynnig, fel y cytunwyd arno gan Weinidogion Cymru, i'w weithredu ym mis Medi 2023. Fodd bynnag, cafodd pandemig COVID-19, ynghyd â materion gweithredol a'r angen i wneud o gorau o gyfluniad y safle a dyluniad yr adeiladau ar gyfer dysgwyr, effaith sylweddol ar gynnydd y cynigion a arweiniodd at oedi'r gwaith arfaethedig.

Er mwyn sicrhau bod digon o leoedd addas yn cael eu darparu yn y cyfnod dros dro, cytunwyd bod capasiti Ysgol Uwchradd Woodlands yn cynyddu o 140 i 180 o leoedd ym mis Medi 2023, cyn yr ehangu parhaol i 240 o leoedd pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, a'r ysgol yn trosglwyddo i'w hadeiladau newydd ar safle Campws Cymunedol y Tyllgoed; y lleoedd ychwanegol i'w darparu trwy ddefnyddio adeilad dros dro newydd ar safle presennol yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn trosglwyddo i'r safle newydd ar Gampws Cymunedol y Tyllgoed, Y Tyllgoed o fis Medi 2026.

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion arbennig uwchradd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth, cynigir:

- Cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Woodlands o 240 i 300 o leoedd o fis Ionawr 2027.

- Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan gynnwys safle Campws Cymunedol y Tyllgoed a'r safle campws presennol Vincent Road.

- Byddai capasiti'r ysgol yn cael ei gynyddu ymhellach i 360 o leoedd o fis Medi 2032 ar ôl cwblhau'r adeilad newydd ar safle campws Vincent Road.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth ysgolion arbennig Caerdydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Nid oes gan ysgolion arbennig cymunedol yng Nghymru gategori iaith dynodedig diofyn, yn ôl Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phob un o ysgolion arbennig Caerdydd gan gynnwys Ysgol Uwchradd Woodlands, a gydag ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y clustnodir eu bod yn gymwys ar gyfer lle mewn ysgol arbennig lle mae angen neu y ffefrir addysg Gymraeg neu yn y ddwy iaith.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 23 isod yn rhoi manylion y lleoedd ADY sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Woodlands**

| Tabl 23: Lleoedd yn Ysgol Arbennig Woodlands | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | **Ystod Oedran** | **Categori'r Ysgol** | **Capasiti Cyhoeddedig Presennol** |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | 11-19 | Ysgol arbennig cyfrwng Saesneg | 180 |

Capasiti presennol Ysgol Uwchradd Woodlands yw 180 o leoedd, ac roedd gan yr ysgol 181 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2025.

Bydd capasiti'r ysgol yn cynyddu i 240 o leoedd o fis Medi 2026 pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau a'r ysgol yn trosglwyddo i'w safle newydd ar safle Campws Cymunedol y Tyllgoed.

## Y galw am leoedd ADY yn yr ysgol

**Mae Tabl 24 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr ar gyfer Ysgol Uwchradd Woodlands**

| Tabl 24: Niferoedd diweddar ac amcanestynol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Woodlands | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | 140 | 142 | 157 | 171 | 181 | 180 | 218 | 230 | 240 | 240 |

* Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol ar sail amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Table 25 Cyflwr and Addasrwydd Sgôrs**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Sgôr diweddaraf Ysgol Uwchradd Woodlands oedd C+ am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi darpariaeth ysgol arbennig ehangach.

## Adeilad yr ysgol

Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan gynnwys safle Campws Cymunedol y Tyllgoed a'r safle campws presennol Vincent Road.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Uwchradd Woodlands:

Mae Woodlands yn blaenoriaethu gwelliant parhaus gyda hunanwerthuso wedi ei strwythuro. Mae timau arweinyddiaeth yn olrhain cynnydd ar flaenoriaethau ac yn alinio camau gweithredu â'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae gweledigaeth strategol yr ysgol yn cael ei chyfathrebu'n dda a'i chefnogi gyda monitro rheolaidd. Mae Woodlands yn paratoi ar gyfer trawsnewidiadau sylweddol, gan gynnwys ei hadleoli yn 2026.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar helpu disgyblion i ymgysylltu â'r cwricwlwm a datblygu sgiliau hanfodol, wedi'u personoli. Mae camau allweddol yn cynnwys adolygu llwybrau dysgu, cynnal safonau addysgu uchel, darparu profiadau amrywiol dan do ac awyr agored, a phwysleisio cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, y Gymraeg, a thracio cynnydd ar gyfer deilliannau wedi'u personoli.

Mae Woodlands yn blaenoriaethu lles a diogelwch disgyblion, gan anelu at bresenoldeb rheolaidd ac amgylchedd dysgu diogel. Mae'r ymdrechion yn cynnwys hyrwyddo iechyd trwy'r cwricwlwm ACRh, mireinio CDUau, cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau, a cheisio gwobrau am gydraddoldeb, hawliau a chynaliadwyedd.

Mae datblygu arweinyddiaeth yn gryfder, gyda rolau diffiniedig i hyrwyddo cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn gwella addysgu a'r cwricwlwm trwy ddatblygu staff a chydweithio. Mae'r blaenoriaethau yn

cynnwys symud i system adolygu broffesiynol a chynllunio ar gyfer newidiadau sy'n ymwneud â safle newydd yr ysgol.

Roedd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol ym mis Tachwedd 2022 yn crynhoi canfyddiadau fel a ganlyn:

Ers yr arolwg diwethaf mae'r ysgol wedi parhau â'i thaith gwella ac mae'n cael ei rhedeg gan arweinwyr hynod alluog ac effeithiol sydd wedi'u hysgogi i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl i bob disgybl. Mae'r ysgol yn parhau i gael ei heffeithio gan brinder staffio ond mae'n rheoli'r anawsterau hyn hyd eithaf ei gallu. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o gefnogaeth i ddisgyblion ac mae'n darparu cymorth lles ffurfiol ac anffurfiol arbennig o effeithiol i'r holl staff.

Ar y cyfan, mae Woodlands yn ysgol ofalgar ac anogol iawn. Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol yn dda iawn ac yn mwynhau perthynas hapus a pharchus â disgyblion a staff eraill. Mae staff yn deall ac yn ymateb i anghenion disgyblion yn dda. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd addas sy'n unol â'u hanghenion a'u gallu. Mae gan staff ddisgwyliadau cyson uchel o agweddau disgyblion tuag at ddysgu ac ymddygiad. Lle mae addysgu yn fwyaf effeithiol, mae staff yn frwdfrydig ac yn cynllunio'n dda ar gyfer anghenion unigol disgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm o ymholi creadigol, ac mae disgyblion yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau yn dda ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion brofi'r rhain. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu yn y gymuned leol, er enghraifft trwy gyfleoedd gwerth chweil i ymgymryd â phrofiad gwaith a lleoliadau i interniaid gyda busnesau.

Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddysgu mwy am y byd gwaith ond yn bwysicach fyth, mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi gan y sefydliadau cynnal am eu hymroddiad a'u hymrwymiad. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at hunan-barch disgyblion.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn Woodlands yn gwrtais, yn ddymunol ac yn barchus o'u hunain ac eraill.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma:

[Ysgol Uwchradd Coetiroedd Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin - Estyn (CYM)]

[Ysgol Uwchradd Woodlands Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin - Estyn (SAES)]

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd yr ehangu arfaethedig yn cael effaith negyddol ar yr ysgol

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae'r lleoliad yn darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr yn Ysgol Uwchradd Woodlands Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

### Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gymorth arbenigol i ysgolion gan gynnwys staff arbenigol, cymorth ar gyfer datblygu staff, fforymau Cydlynwyr ADY, cyfarfodydd Cydlynwyr ADY clwstwr, diweddariadau anghenion dysgu ychwanegol tymhorol i Benaethiaid a diweddariadau rheolaidd i gyrff llywodraethu.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Materion Adnoddau Dynol

Bydd y cynnydd arfaethedig yn nifer disgyblion yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiad. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Dileu Swyddi Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

## Dweud eich dweud

Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion.

Gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ymateb ar-lein yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Fel arall, gallwch fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Mae manylion y rhain ar dudalen8.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 26 Mawrth 2026.**

# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Cynnig



# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Cynnig

## Manteision y newidiadau arfaethedig

At ei gilydd mae'r cynigion yn gwneud defnydd o'r adeiladau ysgol presennol, yn cydgrynhoi'r ddarpariaeth brif ffrwd ac yn lleihau lleoedd dros ben i gefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth arbenigol.

Byddai'r cynigion yn:

- Cynyddu nifer y lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a chyfrannu at ateb y galw amcanestynol.
- Gwneud y defnydd gorau o'r ystâd ysgolion bresennol, gan atal mannau sydd wedi'u tanddefnyddio rhag troi'n faich, a chefnogi strategaethau rheoli asedau hirdymor
- Darparu cyfleoedd i ateb y galw lleol am ddarpariaeth arbenigol a lleihau lleoliadau y tu allan i'r sir.
- Darparu dosbarthiad gwell o leoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nes at y cartref sy'n caniatáu i ddysgwyr aros yn eu cymunedau, gan leihau amser teithio a gwella ymgysylltiad teuluol
- Cefnogi cynhwysiant i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan hyrwyddo integreiddio a rhyngweithio cymdeithasol, wrth barhau i ddarparu cymorth targedig.
- Gwella llesiant, gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa o amgylcheddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer hygyrchedd a chynhwysiant, y gellir eu cyflawni trwy ôl-osod gofodau presennol yn feddylgar.
- Caniatáu datblygiad graddol, gan ddechrau'n fach ac ehangu wrth i'r galw dyfu, heb ymrwymo i brosiectau cyfalaf ar raddfa fawr ymlaen llaw.
- Lleihau effaith prosiectau adeiladu ar raddfa fawr ar gymunedau lleol.
- Osgoi gwastraff dymchwel a charbon ymgorfforedig adeiladau newydd, gan alinio â nodau sero net a chynaliadwyedd
- Caniatáu i fannau wedi'u haddasu gael eu had-drefnu eto os bydd tueddiadau demograffig yn newid, gan gynnig gwytnwch yn erbyn niferoedd disgyblion sy'n amrywio.

Byddai darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn hefyd yn:

- Cynyddu nifer y lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a chyfrannu tuag at y galw amcanestynol
- Darparu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel mewn adeiladau newydd, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion. Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 yn nodi'r angen i ddarparu lleoedd ysgol o ansawdd uchel. Mae amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel yn cael effaith gref ar wella deilliannau disgyblion;
- Darparu adeiladau newydd cwbl hygyrch sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010

## Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

Gallai'r cynigion:

- Gynyddu tagfeydd traffig o amgylch safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu i ddatblygu Cynlluniau Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

- Byddai'r cynigion i ddarparu cartref newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn ar safle Tŷ Glas yn caniatáu i unrhyw waith adeiladu gael ei gwblhau heb unrhyw darfu ar ddisgyblion, fodd bynnag, gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai'r gwaith o weithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio gan anawsterau annisgwyl gan gynnwys wrth geisio penodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni'r prosiect neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgol yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a datblygol a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw broblemau annisgwyl a allai godi.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu/ehangu darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth yn yr ysgolion a glustnodwyd, ac sydd wedi ei nodi ar gyfer pob cynnig yn ddogfen ymgynghori, gynnwys:

- Gwneud dim - ond nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.

- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r holl safleoedd ysgolion prif ffrwd ac arbennig yng Nghaerdydd.

Mae amrywiaeth o gynigion posib wedi'u nodi a byddant yn cael eu cyflwyno fesul cam i ganiatáu ar gyfer datblygu cynigion ymhellach, adolygu data poblogaeth a'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol yn barhaus, y prosesau statudol angenrheidiol a gweithredu effeithiol.

Y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yw'r cam cychwynnol i fynd i'r afael â'r galw presennol am leoedd Anghenion Dysgu Cymhleth.

Mae safonau yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion yn dda ac mae gan yr ysgolion hanes llwyddiannus o gynnig cymorth ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgolion hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd Anghenion Dysgu Cymhleth ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Ystyrir felly bod y cynigion a gyflwynwyd yn opsiynau a ffefrir.

# Cymorth Ychwanegol i Ddisgyblion

Mae Tabl 26 isod yn dangos canrannau

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion Cymwys i Gael Prydau Ysgol Am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

yn yr ysgolion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn.

**Tabl 26: Canran y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, y gwyddys eu bod yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim, sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac a adnabuwyd fel disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig**

| Ysgol | % y disgyblion â datganiad ADY | % y disgyblion â CDU | % y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd | % y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol | % y disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | * | 3.4% | 58.6% | 69.8% | 81% |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | * | 6.3% | 51% | 4.6% | 21.3 |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | * | 4.0% | 38% | 3.6% | 25.6% |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | * | * | * | * | * |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | * | * | * | * | * |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | * | * | * | * | * |
| Cyfartaledd Caerdydd | * | 6.0% | 26.9% | 20.5% | 40.3% |
| Cyfartaledd Cymru | 0.4% | 5.2% | 21.7% | 7.4% | 16% |

Ffynhonnell: https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy

*Mae'r eitem ddata hon yn ddatgelol, nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi, nid yw'n berthnasol neu nid yw ar gael fel arall.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk Mae Fy Ysgol Leol yn wefan sydd wedi'i chynllunio i agor mynediad at ddata ysgolion i rieni a phawb arall sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

## Beth fyddai'r effaith ar y gefnogaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth ychwanegol i fodloni eu hanghenion, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses.

Byddai arbenigedd presennol yr ysgolion yn cael ei gynnal.  Byddai sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol newydd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu staff mewn ysgolion prif ffrwd, ac i gyfoethogi dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r newidiadau arfaethedig ond yn effeithio ar ddysgwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol ar yr adeg y cânt eu derbyn i leoliad arbenigol.

Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae ysgolion presennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bodoli eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

### Sut yr effeithir ar y gefnogaeth sydd i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth am fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd. Mae'r safonau yn yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut y caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai pob ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

### Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol y gwyddys eu bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r safonau yn yr ysgolion lle cynigir newidiadau yn dda.  Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

### Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

Mae'r safonau yn yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda. Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol.  Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae ysgolion arbennig / canolfannau adnoddau arbenigol yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw yn y ddarpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac mewn ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

## Trefniadau Derbyn

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion yn sgil y cynigion hyn.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ei Drefniadau Derbyn ar gyfer 2027/28. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu penderfynu gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod Ddydd Iau 19 Mawrth 2026.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Y Cyngor sy'n rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol, yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos i'w cyfeiriad cartref â phosib, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

Byddai penderfyniadau ynghylch pa ddisgyblion fyddai'n cael eu cynnig i fynychu'r darpariaethau newydd eu sefydlu/ehangu yn cael eu gwneud ar sail unigol. Ni ragwelir y bydd dysgwyr yn trosglwyddo o leoliadau arbenigol presennol oni bai bod eu rhieni yn gofyn am hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau mewn dosbarth prif ffrwd ac yn trosglwyddo ar adeg briodol i addysg arbenigol. Mae gwaith cynllunio a chefnogi o ansawdd uchel ar gyfer pontio wedi'i hen sefydlu yng Nghaerdydd ac mae wedi'i deilwra lle bo angen i anghenion penodol rhieni a dysgwyr.

Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gydag ysgolion i nodi trefniadau pontio priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau yn dibynnu ar angen unigol ac yn cael eu symud ymlaen yn ôl yr angen. Mae ysgolion presennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bodoli eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

## Trefniadau Teithio Dysgwyr a Thraffig a Thrafnidiaeth

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant rhwng y cartref a'r ysgol.

Bydd unrhyw ddisgybl y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a ddarperir ym mhob rhan o Gaerdydd, ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.

Gweler polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, wedi ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn darparu trafnidiaeth carterf i ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol ar sail meini prawf cerdded statudol. Gall rhai disgyblion sy'n byw o fewn 2–3 milltir i'r ysgol hefyd gael cludiant am ddim oherwydd anghenion unigol neu faterion cymdeithasol.

Efallai na fydd disgyblion sy'n gallu teithio'n annibynnol, neu sydd â rhieni sy'n byw o fewn y pellter cymhwyso o ddwy filltir neu dair milltir, yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae yna asesiad ar wahân ar sail anghenion unigol ar gyfer trafnidiaeth ysgol yn ogystal â'r meini prawf sy'n seiliedig ar bellter.

Pe bai'r cynigion i ehangu'r ddarpariaeth yn cael eu gweithredu, byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol arbennig yn dal i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Fodd bynnag, gall pellteroedd teithio byrrach, oherwydd darpariaeth arbenigol fwy lleol, ganiatáu i rai deithio'n annibynnol gyda chynlluniau fel Hyfforddiant Teithio Annibynnol, hyfforddiant beicio, a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus symlach sy'n cefnogi teithio llesol a chynaliadwy.

Rhaid i safleoedd ysgol newydd neu estynedig sicrhau mynediad diogel i drafnidiaeth ac efallai y bydd angen Asesiadau Trafnidiaeth (ar gyfer prosiectau mawr) neu Ddatganiadau Trafnidiaeth (ar gyfer prosiectau llai).

Mewn rhai achosion, bydd angen gwelliannau i gefnogi mynediad diogel i drafnidiaeth, gan gynnwys teithio llesol oddi ar y safle.

Pan fydd ysgol yn adleoli, bydd gofyn i'r tîm Trafnidiaeth Ysgol aildrefnu holl logisteg trafnidiaeth yr ysgol yn llawn.

Bydd pob lleoliad ysgol ar safle newydd neu bresennol, gyda galw newydd neu uwch am gerbydau Trafnidiaeth Dysgwyr, angen cyfleusterau newydd addas, gwell a /neu estynedig ar gyfer codi a gollwng ar y safle.

Byddai angen i'r ardaloedd dan sylw ddarparu ar gyfer nifer priodol o gerbydau a allai fod yn fras tua un tacsi i bob 3 disgybl. Mewn rhai achosion, gall bysus mini fod yn addas, ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol, y lleoliadau cartref a llwybrau.

Bydd angen ystyried ad-drefnu ac ailddyrannu mannau parcio a chylchrediad presennol cerbydau.

Byddai'r ddarpariaeth barcio mewn ysgolion newydd yn unol â safonau parcio'r Cyngor, er bod dyraniadau ar gyfer ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu cytuno fesul achos.

Byddai rhai o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i'r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a/neu addasu adeiladau. Byddai pob cynnig hefyd yn arwain at gostau refeniw i'r Cyngor, wrth gyflogi staff.

### Cyllid cyfalaf y newidiadau arfaethedig

Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gynllun hirdymor i wella adeiladau ysgolion ledled Cymru. Mae hyn yn cefnogi'r Cyngor i fuddsoddi mewn adeiladu ysgolion newydd neu uwchraddio ysgolion presennol fel y gall pob plentyn ddysgu mewn amgylcheddau modern, o ansawdd uchel.

Ar gyfer ysgolion arbennig cymwys a phrosiectau canolfan adnoddau arbenigol, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o'r costau adeiladu. Byddai'r costau sy'n weddill yn cael eu hariannu gan y Cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grant cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar wahân, sy'n helpu ysgolion i greu mannau gwell, mwy cynhwysol i ddisgyblion ag ADY. Gellir defnyddio hyn ar gyfer prosiectau llai sy'n gofyn am waith addasu cymharol fach.

Mae rhai o'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio mewn ysgolion sydd wedi'u sgorio â "Cyflwr C", a fyddai'n elwa'n fawr o fuddsoddiad.

Ar gyfer prosiectau mwy, mae cyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dibynnu ar gymeradwyaeth achos busnes gan Weinidogion y Llywodraeth.

Fodd bynnag, ni ddisgwylir i rai prosiectau llai - gan gynnwys addasiadau dros dro yn hen adeilad Ysgol Arbennig The Court, Ysgol Uwchradd Woodlands, ac Ysgol Arbennig Riverbank - fod yn gymwys i gael arian cyfatebol. Byddai'r Cyngor yn talu am y rhain, gan ddefnyddio cyllid Grant cyfalaf ADY.

Er mwyn sicrhau bod digon o leoedd arbenigol i blant sydd eu hangen nhw, ac er mwyn atal oedi wrth gael y cymorth cywir, mae'r Cyngor yn bwriadu dechrau gwaith ar adnewyddu adeiladau nawr, yn hytrach nag aros i'r holl benderfyniadau gael eu cwblhau. Byddai gweithredu'n gynnar yn helpu plant i gael mynediad i'r lleoliad arbenigol cywir yn gynt, lleihau nifer y lleoliadau annibynnol drud, a lleddfu'r pwysau ar ysgolion prif ffrwd.

Ar ôl ymgynghori, os nad yw cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai'r mannau sydd newydd eu hadnewyddu yn dal i gael eu defnyddio gan ysgolion - er enghraifft ar gyfer darpariaeth feithrin, cymorth llesiant, neu addasiadau eraill i ddiwallu anghenion disgyblion.

Mae rhai prosiectau yn cynnwys adeiladu cyfleusterau hollol newydd. Byddai angen cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Gweinidogion ar y prosiectau mwy hyn.

Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu dechrau'r gwaith dylunio ar y cynigion hyn nawr. Mae hyn yn golygu y gallai'r ddarpariaeth newydd fod yn barod tua blwyddyn yn gynt na phe bai'r gwaith dylunio yn cael ei ohirio.

## Ariannu lleoliadau ysgol drwy refeniw

Mae cyllid ar gyfer ysgolion prif ffrwd yn seiliedig yn bennaf ar nifer y disgyblion sydd ganddynt, ynghyd â sawl taliad cyfandaliad sefydlog ar gyfer pob ysgol.

Mae lleoliadau mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol CAAau) yn costio mwy i'r Cyngor na lleoliadau mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod llai o ddisgyblion mewn dosbarth arbenigol a chymhareb uwch o staff i ddisgyblion.

Pan fydd disgybl angen lleoliad arbenigol ond mae ysgolion arbennig a CAAau y Cyngor ei hun yn llawn, mae'r Cyngor yn dibynnu ar ddarparwyr addysg annibynnol nes bod lle ar gael. Mae hyn yn sicrhau bod disgybl yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth briodol. Fodd bynnag, mae'r lleoliadau annibynnol hyn fel arfer yn ddrytach na lleoedd mewn ysgolion arbennig neu Ganolfannau Adnoddau Arbenigol.

Byddai ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir a CAAau yn helpu i leihau dibyniaeth y Cyngor ar leoliadau annibynnol costus. Byddai hefyd yn sicrhau bod lleoedd arbenigol ar gael ledled y ddinas lle mae eu hangen.

Pan fydd disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn symud o addysg brif ffrwd i ddarpariaeth arbenigol, nid yw'r ysgol brif ffrwd bellach yn derbyn cyllid fesul disgybl ar gyfer y disgybl hwnnw. Fodd bynnag, mae'r gost i ysgolion prif ffrwd o gyflogi'r staff cymorth ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer rhai disgyblion ag ADY yn llawer uwch na'r cyllid maen nhw'n ei dderbyn ar gyfer y disgyblion hynny. Mae nifer o ysgolion Caerdydd eisoes mewn diffyg cyllideb oherwydd eu bod wedi gorfod cyflogi staff ychwanegol i ddarparu cymorth priodol i ddisgyblion ag ADY.

Bydd angen i gostau refeniw y lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig bresennol.

Byddai cynyddu darpariaeth arbenigol yn symud cyfran fwy o gyfanswm y cyllid tuag at leoliadau arbenigol a byddai'n lleihau cyfran y gyllideb i ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, byddai'n gwneud y system gyffredinol yn fwy effeithlon yn y pen draw. Byddai'n helpu i leihau'r straen ariannol ar ysgolion prif ffrwd a achosir gan gefnogi disgyblion ag anghenion ADY sylweddol.

Ni fyddai disgwyl i sefydlu, neu ehangu, Canolfan Adnoddau Arbenigol mewn ysgol gael effaith negyddol ar gyllideb ysgol. Mae'r cyllid ar gyfer staff ac adnoddau ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn bodloni neu'n fwy na'r gost i'r ysgol o gynnal y Ganolfan.

Bydd yn rhaid i'r Cyngor hefyd ariannu costau trafnidiaeth ysgol ar gyfer pob cynnig. Gall y gost gyffredinol i'r Cyngor o gludo mwy o ddisgyblion i ddarpariaeth arbenigol gynyddu. Byddai gwell lledaeniad i leoedd, ymhen amser, yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn gallu cael mynediad at leoliad arbenigol yn agosach at eu cartrefi. Byddai hyn yn cyfyngu'r cynnydd mewn costau trafnidiaeth cartref i'r ysgol.

## Darpariaeth Iechyd

Mae gan rai o'r disgyblion sy'n mynychu ysgolion Caerdydd anghenion iechyd neu feddygol ychwanegol, sy'n gofyn bod ysgolion yn gweithio gyda Gwasanaethau'r GIG ac mae trafodaethau cadarnhaol ar lefel uwch yn cael eu cynnal ynghylch y cynigion ADY.

Cynhaliwyd ystod eang o brosiectau cydweithredol gan y gwasanaethau Addysg a'r GIG, i wella sylfaen sgiliau staff addysg mewn lleoliadau ysgolion arbennig a phrif ffrwd, gan gynyddu eu gallu i roi cyngor gan wasanaethau iechyd ar waith, er budd unigolion a grwpiau.

Er enghraifft, mae gan Addysg Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda'r Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd a Therapi Galwedigaethol i sicrhau capasiti ar gyfer ystod o wasanaethau hyfforddi ac ataliol mewn ysgolion prif ffrwd a chanolfannau adnoddau. Mae gan y Storfa Offer ar y Cyd CLG, i ddarparu cymhorthion symudedd, ac mae'r Tîm Athrawon Arbenigol Cynhwysiant Anabledd yn darparu cymorth a chyngor o ran Cynlluniau Codi a Chario a Gofal Iechyd, gan gyfeirio at wasanaethau nyrsio ar gyfer hyfforddiant ynghylch cyflyrau amrywiol gan gynnwys Diabetes ac Epilepsi.

Yn ddiweddar, mae'r bwrdd iechyd wedi penodi swyddog prosiect i arwain ar brosiect lleol: 'Prosiect Twf Ysgolion Arbennig', sy'n edrych ar greu model o weithio amlasiantaethol er mwyn cefnogi anghenion iechyd plant yn ysgolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn y modd gorau. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd er mwyn helpu i symud y prosiect hwn yn ei flaen.

## Datblygu'r gweithlu addysg

Bydd y gwaith ehangu cynlluniedig o ddarpariaeth addysgol arbenigol yn effeithio ar ofynion gweithlu ysgolion dros amser. Wrth i fwy o ddysgwyr symud o leoliadau prif ffrwd i leoliadau arbenigol, bydd angen llai o staff mewn ysgolion prif ffrwd, wrth i rolau ychwanegol gael eu creu mewn darpariaeth arbenigol newydd neu estynedig. Er y bydd cynyddu lleoedd arbenigol a gynhelir gan y Cyngor yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddarparwyr annibynnol, bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i greu rolau addysgu a chymorth arbenigol newydd, ac i staff presennol gael eu cadw, gan gynnwys athrawon, Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, Cynorthwywyr Addysgu, Goruchwylwyr Canol Dydd a staff cymorth eraill.

Mae nifer y derbyniadau i ysgolion cynradd wedi gostwng, gyda disgwyl i'r niferoedd ar y gofrestr yn y dyfodol fod tua 20% yn is nag yn 2020, sy'n golygu y bydd angen llai o rolau addysgu a chymorth prif ffrwd, tra bydd angen ehangu'r gweithlu mewn darpariaeth arbenigol. Bydd hyn yn effeithio ar y sector uwchradd yn yr un modd, gydag oedi o saith mlynedd.

Mae Strategaeth Cynhwysiant Caerdydd yn pwysleisio'r angen am strategaeth gweithlu i gefnogi nodau cynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys arallgyfeirio staff ar lefelau uwch a chyrff llywodraethu, a sicrhau digon o staff medrus ar gyfer darpariaeth arbenigol ehangach, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Datblygu'r Gweithlu gyda rhanddeiliaid gan gynnwys cynrychiolwyr ysgolion, gan weithio gyda'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach a phartneriaid eraill, i gefnogi'r gwaith o recriwtio, hyfforddi, datblygiad parhaus a chadw staff ysgolion, ac i ystyried y ffordd orau o weithredu modelau staffio sy'n briodol ar gyfer pob dysgwr ym mhob darpariaeth arbenigol.

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â sefydlu darpariaethau newydd ac ehangu'r darpariaethau anghenion dysgu ychwanegol presennol.

Ni fyddai unrhyw newid i'r trefniadau llywodraethu presennol, gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yn gyfrifol am reoli a llywodraethu'r darpariaethau anghenion dysgu ychwanegol.

## Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon yw ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg presennol ac ysgolion arbennig sydd ar hyn o bryd yn hwyluso addysgu a dysgu yn Saesneg.

Mae darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ar hyn o bryd, cynigir darpariaeth ysgol arbennig i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Saesneg ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth i fynd i'r afael â'r diffyg lleoedd presennol.

Mae digon o leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Cymraeg yn y ddarpariaeth bresennol. Mae darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth ar gael yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac i ddysgwyr uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg yn sgil y newidiadau arfaethedig.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgynghori ar gynigion i gynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth/Cyfathrebu Cymdeithasol cyfrwng Cymraeg a nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd Emosiynol a Lles Cymraeg i ddysgwyr cynradd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion am y cynigion hyn yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Dangosodd adborth o arolygon a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Mai a mis Mehefin 2025 fod angen cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth arolwg yma'n dangos cyfran y dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lle mewn ysgol arbennig neu le mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried, ar y cyd â Phenaethiaid Ysgolion Arbennig Caerdydd, y ffordd orau o ddarparu ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd angen lle mewn ysgol arbennig.

Nid oes gan ysgolion arbennig cymunedol yng Nghymru gategori iaith dynodedig diofyn, yn ôl Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Gallant ddynodi categori iaith yn wirfoddol os yw eu darpariaeth yn cyd-fynd ag un o'r categorïau safonol (e.e., Prif Iaith - Cymraeg neu Ddwy Iaith).

Mae hyn oherwydd:

- Mae ysgolion arbennig cymunedol yn aml yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth neu amrywiol, a allai fod angen dulliau addysgol unigol iawn arnynt.
- Mae hyblygrwydd yn y ddarpariaeth iaith yn caniatáu i ysgolion arbennig deilwra eu cwricwlwm i anghenion penodol eu disgyblion, heb gael eu cyfyngu gan gategori penodol.

- Mae'r opsiwn dynodi gwirfoddol yn sicrhau y gellir cydnabod ysgolion sydd â darpariaeth Gymraeg gref o hyd.

Rhaid i ysgolion arbennig cymunedol baratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg, sy'n amlinellu:

- Faint o addysg Gymraeg a ddarperir.
- Cynigion i hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg.
- Cymorth i rieni nad ydynt, o bosib, yn hyderus yn y Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion arbennig, ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn gymwys ar gyfer lle mewn ysgol arbennig, y mae angen addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith, neu lle ffefrir hynny, ar eu cyfer.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy i ysgolion, megis cerdded a beicio.

Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gallai symudiadau myfyrwyr leihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

## Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EAG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud ac mae ar gael i'w weld yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen.

## Effaith ar y Gymuned

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y cynnig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, tir parc, y modd y defnyddir cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siŵr bod y cynnig yn osgoi effaith negyddol os yw hynny'n bosibl.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cychwynnol wedi'i wneud ac mae ar gael i'w weld yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen.

## Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu, addasu ac ail-wampio yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Os bwrir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r Cyrff Llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu ffrydiau gwaith i gefnogi'r prosiect.

Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgolion yn y cynigion hyn i sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau uchel o ran addysg a diogelwch yn cael eu cynnal.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai unrhyw addasiadau i adeiladau presennol yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosib ar addysgu a dysgu. Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

**Nodir y camau hyn yn Nhabl 27 isod:**

**Tabl 27: Camau yn y dyfodol (Gall yr amserlen hon newid)**

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | 09 Chwefror – 26 Mawrth 2026 |
| Adroddiad ymgynghori i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Mai 2026 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Mehefin/Gorffennaf 2026 |
| Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Gorffennaf 2026 |
| Penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Medi 2026 |
| Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet | Medi 2026 |

## Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 09 Chwefror 2026 ac yn dod i ben ar 26 Mawrth 2026.

Gweler tudalen 8 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynigion ac unrhyw ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd gan aelodau etholedig, cyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ac unrhyw gyrff cynrychioliadol. Bydd y pwyntiau a godir mewn ymatebion unigol yn cael eu crynhoi a'u hystyried ond heb eu cyhoeddi'n llawn.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir neu beidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.


Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad(au) yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd rhagddynt. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion, neu gymeradwyo'r cynigion â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.



# Atodiad 1

## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) yw'r cymorth a roddir i blentyn neu berson ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran. Rhaid i'r ddarpariaeth gael ei chynnwys yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) dysgwr. Yng Nghymru, gall DDdY a gynhelir gan Awdurdod Lleol fod o fewn y canlynol:

- Ysgolion prif ffrwd
- Canolfannau Adnoddau Arbenigol, neu
- Ysgolion arbennig

## Darpariaeth ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd

Mae addysg gynhwysol mewn ysgolion prif ffrwd yn canolbwyntio ar greu amgylchedd lle gall pob dysgwr, waeth beth fo'u galluoedd, anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau, ddysgu gyda'i gilydd.

Mae addysgu a dysgu o ansawdd da i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cynnwys sawl egwyddor ac arfer allweddol sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad i'r cwricwlwm a chyflawni eu potensial llawn.

Mae agweddau pwysig ar y ddarpariaeth hon yn cynnwys:

(i) **Amgylchedd Cynhwysol:** Creu awyrgylch ystafell ddosbarth croesawgar a chefnogol lle mae pob dysgwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a pharch ymhlith dysgwyr a staff.

(ii) **Gwahaniaethu:** Addasu dulliau a deunyddiau addysgu i fodloni anghenion amrywiol dysgwyr. Gallai hyn gynnwys defnyddio cymhorthion gweledol, gweithgareddau ymarferol, ac amrywio cyflymder y cyfarwyddyd i addasu gwahanol arddulliau dysgu.

(iii) **Cymorth wedi'i Dargedu:** Cymorth ac ymyriadau wedi'u teilwra yn seiliedig ar anghenion penodol pob dysgwr. Gallai hyn gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach, neu adnoddau ychwanegol i helpu dysgwyr i lwyddo.

(iv) **Gwasanaethau Cymorth:** Gall ysgolion gynnig arbenigwyr i weithio gyda'r staff i sicrhau bod anghenion y dysgwyr yn cael eu bodloni a'u darparu gyda'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fwyaf priodol; mae'r rhain yn cynnwys Seicoleg Addysgol, Timau Athrawon Arbenigol, Allgymorth Ysgol Arbennig a Chwnsela Seiliedig ar Ysgolion

(v) **Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol:** Gweithredu strategaethau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac emosiynol, iechyd a lles, gan greu amgylchedd ystafell ddosbarth/ysgol gefnogol a chynhwysol.

(vi) **Defnyddio Technoleg Gynorthwyol:** Ymgorffori technoleg ac offer sy'n cynorthwyo dysgu a chyfathrebu, megis meddalwedd addasol, dyfeisiau cyfathrebu, ac offer arbenigol lle bo hynny'n briodol

(vii) **Cyllid dirprwyedig:** mae pob ysgol yn derbyn cyllideb Cymorth ADY fel rhan o'u cyllideb ysgol ddirprwyedig, i dalu costau staff ac adnoddau Ymyrraeth Gynnar a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

(viii) **Partneriaethau ag iechyd:** ystod o drefniadau cydweithredol a chydweithredol gyda'r GIG i gefnogi adnabod ac ymyrryd yn gynnar

(ix) **Dysgu proffesiynol:** Mae gan bob ysgol fynediad at ystod o gyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol a ddarperir gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, timau addysgu arbenigol a Thîm Statudol ADY, yn aml mewn cydweithrediad â gwasanaethau iechyd.

## Darpariaeth ar gyfer dysgwyr mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn gyfleuster o fewn ysgol brif ffrwd sydd wedi'i gynllunio i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) tra'n caniatáu iddynt integreiddio â'u cyfoedion lle bo hynny'n briodol ac yn addas.

Mae'r gyllideb a'r cyfrifoldeb am reoli'r canolfannau yn cael ei ddirprwyo i gorff llywodraethu'r ysgol brif ffrwd, ond mae'r awdurdod lleol yn rheoli derbyniadau. Mae gwasanaethau arbenigol awdurdodau lleol yn cydlynu ystod o hyfforddiant a dysgu proffesiynol ar gyfer staff y ganolfan adnoddau a chyrff llywodraethu cymorth yn y broses o benodi a datblygu staff addysgu a chymorth arbenigol.

Mae nodweddion allweddol canolfan adnoddau arbenigol yng Nghaerdydd, yn ogystal â'r ddarpariaeth o fewn ystafell ddosbarth prif ffrwd, yn cynnwys:

(i) **Gofod Pwrpasol:** Mae gan y ganolfan adnoddau ei hystafelloedd dosbarth a'i chyfleusterau ei hun yn yr ysgol prif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i ddysgwyr ag ADY.

(ii) **Staff cymwysedig, profiadol ac arbenigol:** Mae'r ganolfan wedi'i staffio gan athrawon a chynorthwywyr addysgu sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu amrywiol.

(iii) **Gwasanaethau Therapiwtig:** Mae gan y ganolfan adnoddau fynediad at wasanaethau fel Seicoleg Addysgol, Timau Athrawon Arbenigol, Therapi Iaith a Therapi Galwedigaethol i gefnogi datblygiad cyfannol dysgwyr.

(iv) **Maint Dosbarthiadau Bach a chymhareb uwch staff:dysgwyr:** Mae dosbarthiadau llai o faint a mwy o staffio yn caniatáu i ddysgwyr dderbyn cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, gwaith pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.

(v) **Cynhwysiant mewn dysgu prif ffrwd:** Mae'r canolfannau awtistiaeth a'r canolfannau amhariad clyw yn canolbwyntio ar ddysgwyr ag anghenion dysgu prif ffrwd. Mae cymarebau staff : dysgwyr yn parhau i fod yn uchel, ond mae'r ffocws ar gefnogi cymaint o fynediad â phosibl i ddysgu prif ffrwd

# Canolfannau Adnoddau Arbenigol yng Nghaerdydd

Mae'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol presennol wedi'u nodi isod, gydag eglurhad o'r meini prawf derbyn ac ystod y ddarpariaeth.

| Canolfannau Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Wedi asesu a nodi anghenion sy'n ymwneud ag anawsterau dysgu<br>• Hanes o gyflawni cynnydd ar gyfradd arafach na'u cyfoedion<br>• Anawsterau parhaus a hirdymor wrth gaffael sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd, sy'n effeithio ar fynediad i'r cwricwlwm<br>• Anawsterau gyda sgiliau dysgu annibynnol sy'n rhwystr i ddysgu, fel gwrando a siarad, cwblhau gwaith ar eu pennau eu hunain a gofyn am help<br><br>Hefyd, gall dysgwyr fod ag un neu fwy o anghenion yn y meysydd canlynol:<br>• Lleferydd, iaith a chyfathrebu<br>• anhawster dysgu penodol<br>• anghenion corfforol, meddygol neu synhwyraidd<br>• awtistiaeth | • Amgylchedd tawel, dosbarth bach gyda chymhareb uwch o oedolion i ddysgwr sy'n darparu dull meithrin o ddysgu wedi'i bersonoli<br>• Mae gan staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol o ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu neu anableddau<br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br>• Dull amlsynhwyraidd gyda chwricwlwm gwahaniaethol iawn yn seiliedig ar gryfderau a diddordeb y disgybl<br>• Mae gan staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol o ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu neu anableddau<br>• Cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu i ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia, dyscalcwlia a dyspracsia<br>• Mynediad at gyngor arbenigol gan Seicolegydd Addysg, Athrawon Arbenigol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Galwedigaethol o'r Awdurdod Lleol. |

| Ysgolion â Chanolfannau Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bryn Hafod | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Greenway | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Llanedern | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach | 4-11 | 30 |
| Ysgol Gynradd Marlborough | 4-11 | 30 |
| Ysgol Gynradd Moorland | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gynradd Severn | 4-11 | 20 |
| Tŷ Calon, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd | 11-19 | 100 |
| Ysgol Uwchradd Willows | 11-19 | 30 |
| Ysgol Gynradd Windsor Clive | 4-11 | 20 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (Cyfrwng Cymraeg) | 11-19 | 30 |
| Ysgol Gynradd Pwll Coch (Cyfrwng Cymraeg) | 4-11 | 20 |

| Canolfannau Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth/Cyfathrebu Cymdeithasol | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Diagnosis o awtistiaeth neu ar y llwybr niwroddatblygiadol gyda'r prif rwystr o gyfathrebu a rhyngweithio.<br>• Proffil gwybyddol sy'n dod o fewn yr ystod anawsterau dysgu cymedrol i uwch na'r cyfartaledd<br>• Potensial uchel i ddysgu a llwyddo yn y brif ffrwd ond mae angen cefnogaeth sylweddol mewn cyfathrebu a dealltwriaeth gymdeithasol<br>• Rhwystrau i ddysgu oherwydd anawsterau synhwyraidd/ cyfathrebu cymdeithasol/ rheoleiddio emosiynol sylweddol<br>• Y gallu i gymryd rhan mewn rhai agweddau ar fywyd ysgol/dysgu yn yr ystafell ddosbarth<br><br>Yn ogystal, efallai bod rhai neu'r cyfan yn bresennol:<br>• Heriau cyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol<br>• Ymddygiad ailadroddus a chyfyngol<br>• Bod yn or neu'n dan sensitif i amgylchedd yr ysgol<br>• Diddordebau neu hobïau sy'n gofyn am gryn ganolbwyntio<br>• Gorbryder eithafol | • Amgylchedd dosbarth bach gyda chymhareb oedolion i ddysgwr uwch<br>• Mae gan staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag awtistiaeth / anawsterau cyfathrebu cymdeithasol<br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br>• Gofod cyffro isel gydag amgylchedd strwythuredig iawn lle defnyddir strategaethau cymorth gweledol yn gyson ac wedi'u teilwra i anghenion y dysgwr<br>• Cwricwlwm unigol, yn seiliedig ar gryfderau, anghenion a diddordebau pob dysgwr, ond sy'n parhau i fod yn cyd-fynd yn fras â'r cwricwlwm prif ffrwd gyda chyfleoedd ar gyfer integreiddio<br>• Asesiadau SCERTS a ddefnyddir i fonitro cynnydd a gosod targedau ar gyfer sgiliau cyfathrebu cymdeithasol a rheoleiddio emosiynol<br>• Defnyddio PECS a symbolau gweledol i helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu<br>• Defnyddio strategaethau TEACCH fel gweithfannau strwythuredig<br>• Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i adeiladu perthnasoedd, rheoli gorbryder, ac ymdopi â newidiadau gan ddefnyddio strategaethau wedi'u teilwra i'w proffiliau unigol<br>• Mynediad i wersi prif ffrwd a grŵp cyfoedion ar gyfer gwersi, gwasanaethau, amseroedd egwyl, neu weithgareddau allgyrsiol, yn seiliedig ar eu parodrwydd a'u hanghenion.<br>• Mae integreiddio yn cael ei gynllunio a'i gefnogi'n ofalus, gyda chyfathrebu rheolaidd rhwng timau staff a rhieni<br>• Mynediad at gyngor arbenigol gan Seicolegydd Addysg, Athrawon Arbenigol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Galwedigaethol o'r Awdurdod Lleol. |

| Ysgolion sydd â Chanolfannau Adnoddau Arbenigol Awtistiaeth/Cyfathrebu Cymdeithasol | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Cantonian | 11-19 | 30 |
| Ysgol Uwchradd Cathays | 11-19 | 50* |
| Ysgol Gynradd Coed Glas | 4-11 | 20 |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | 11-19 | 45 |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 4-11 | 24 |
| Ysgol Gynradd Springwood | 4-11 | 28 |
| Ysgol Esgob Llandaf (Canolfan Marion) | 11-18 | 66 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (Cyfrwng Cymraeg) | 11-19 | 30 |

*Ehangu graddol i 50 lle, wedi'i gapio dros dro ar 20 lle nes bod Ysgol Uwchradd Cathays newydd wedi'i gwblhau.

| Canolfannau Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Anghenion emosiynol ac ymddygiadol sylweddol; yn weithredol 2-3 blynedd y tu ôl i'w cyfoedion yn y maes hwn sy'n cael ei nodi fel rhwystr i'w dysgu<br>• Proffil gwybyddol sy'n dod o fewn yr ystod anawsterau dysgu cymedrol i uwch na'r cyfartaledd<br>• Potensial uchel i ddysgu a llwyddo yn y brif ffrwd ond angen cefnogaeth sylweddol gyda'u hiechyd a lles emosiynol.<br>• Potensial i ddychwelyd i'w hysgol prif ffrwd leol o fewn 1-2 flynedd<br>• Nid yw anawsterau ymlyniad gyda dysgwyr wedi dysgu gwneud perthynas ymddiriedol gydag oedolion neu i gysylltu'n briodol â phlant eraill<br>• Gall y math o ymddygiad amrywio o gyflwyniad awtistig sy'n cael ei dynnu'n ôl yn gymdeithasol / goddefol, i gydymffurfio yn agored i elyniaethus, ymosodol a herfeiddiol agored<br><br>Yn ogystal â hyn, gallant hefyd:<br>• Cael anawsterau wrth ffurfio perthnasoedd<br>• Angen cymorth i reoleiddio eu hemosiynau<br>• Angen cymorth gyda rhyngweithio â chyfoedion<br>• Cael anawsterau sylweddol gyda threfniadau a disgwyliadau ysgol<br>• Dangos ymddygiadau sy'n effeithio'n negyddol ar eu cynnydd a/neu eraill | • Amgylchedd dosbarth bach, digyffro a strwythuredig gyda chymhareb oedolion i ddysgwr uwch<br><br>• Mae gan staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad o ddull sy'n seiliedig ar drawma o gefnogi dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol.<br><br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br><br>• Mynediad at wersi prif ffrwd a rhyngweithio cymdeithasol â chyfoedion prif ffrwd<br><br>• Pecyn ailintegreiddio i gefnogi dychwelyd arfaethedig y plentyn i'w ysgol gartref ar sail amser llawn<br><br>• Mynediad at gyngor arbenigol gan Seicolegydd Addysg, Athrawon Arbenigol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Galwedigaethol o'r Awdurdod Lleol. |

| Ysgol â Chanolfannau Adnoddau Iechyd a Lles Emosiynol | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | 7-11 | 8 |
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 11-18 | 20 |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | 7-11 | 8 |
| Ysgol Gynradd Lakeside | 4-7 | 16 |
| Ysgol Gynradd Springwood | 4-7 | 8 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (Cyfrwng Cymraeg) | 11-18 | 20 |

| Canolfan Adnoddau Arbenigol Iaith a Lleferydd | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Anhawster lleferydd ac iaith sylweddol a phenodol<br>• Proffil gwybyddol sy'n dod o fewn yr ystod anawsterau dysgu cymedrol i uwch na'r cyfartaledd<br>• Potensial i ddychwelyd i'w hysgol prif ffrwd leol o fewn blwyddyn | • Amgylchedd dosbarth bach, digyffro a strwythuredig gyda chymhareb oedolion i ddysgwr uwch<br>• Mae gan staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol o gefnogi dysgwyr ag anawsterau lleferydd ac iaith<br>• Lleoliad hyblyg rhwng 2 – 9 tymor<br>• Cwricwlwm prif ffrwd gwahaniaethol wedi'i deilwra i bob unigolyn<br>• Ymyriadau lleferydd a/neu iaith penodol yn seiliedig ar anghenion unigol y plentyn ac wedi'u hymgorffori yn eu trefn ddyddiol<br>• Ystod o strategaethau ac ymyriadau unigol a grŵp i ddatblygu sgiliau iaith derbyniol a mynegiannol a hwyluso datblygiad seiniau lleferydd a sgiliau ieithyddol<br>• Gellir defnyddio strategaethau eraill megis Makaton, Mynegiant ag Ysgogiad, POPAT (rhaglen Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ffonolegol) a'r defnydd cyson o ddelweddau i gefnogi synau lleferydd wedi'u targedu a/neu ddealltwriaeth o iaith<br>• Mynediad at gyngor arbenigol gan Seicolegydd Addysg, Athrawon Arbenigol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith o'r Awdurdod Lleol<br>• Cyswllt, cyngor ac arweiniad rhwng y Dosbarth Ymyrraeth Gynnar a'r ysgol gartref |

| Ysgolion â Chanolfan Adnoddau Arbenigol Iaith a Lleferydd | Ystod Oedran | Lleoedd |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Fairoak | 5-7 | 8** |

**Nid yw lleoedd wedi'u 'dynodi' yn ffurfiol; mae dysgwyr yn mynychu dros dro ac yn aros ar gofrestr ysgol gartref.

| Canolfan Adnoddau Arbenigol Amhariad Clyw | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Diagnosis meddygol o golled clyw cymedrol/ difrifol neu ddwys, sy'n cael ei nodi fel eu prif Angen Dysgu Ychwanegol<br>• Peidio â chyrraedd eu potensial o fewn ysgol prif ffrwd/lleoliad blynyddoedd cynnar neu mae tystiolaeth bod y bwlch cyrhaeddiad yn ehangu gyda'u cyfoedion<br>• Gofyn am fynediad i amgylchedd iaith arwyddion i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a chael mynediad i'r cwricwlwm e.e. BSL / SSE<br>• Byddai'n elwa o fynediad at grŵp cyfoedion sy'n arwyddo Byddar a diwylliant Byddar<br><br>Gall hyn gynnwys un neu fwy o ganlyniad<br>• Oedi sylweddol yn natblygiad iaith<br>• Anhawster sylweddol gyda chael mynediad i'r cwricwlwm o fewn lleoliad prif ffrwd, er gwaethaf hyfforddiant, cefnogaeth, offer arbenigol ac addasiadau rhesymol<br><br>Yn ogystal, gall rhai dysgwyr gyflwyno angen dysgu eilaidd neu ychwanegol fel angen dysgu, angen emosiynol neu gorfforol | • Amgylchedd dosbarth bach gyda chymhareb oedolion i ddysgwr uwch<br>• Mae gan staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc fyddar<br>• Dull strwythuredig o gyflwyno a datblygu iaith<br>• Technegau a dulliau a gynlluniwyd ar gyfer plant byddar h.y. Ffoneg weledol, hyfforddiant clywedol, rhaglenni gwrando<br>• Amgylchedd acwstig gyda dyfeisiau gwrando priodol e.e. mewnblaniad cochlea, cymhorthion clyw, cymhorthion clyw radio, systemau maes sain<br>• Gwahanol ddulliau o ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu. Er enghraifft, bydd rhai yn defnyddio gwrando, siarad a darllen gwefusau<br>• Mae'r ddarpariaeth yn hyblyg yn dibynnu ar anghenion disgyblion a gall gynnwys addysgu unigol, grŵp bach a phrif ffrwd.<br>• Mae'r cwricwlwm yn cynnwys y cwricwlwm astudiaethau byddar a dysgu am fodelau rôl byddar.<br>• Mae gan blant a phobl ifanc fyddar fynediad at grŵp cyfoedion byddar a mynediad dyddiol at staff arbenigol cymwysedig. |

| Ysgolion â Chanolfan Adnoddau Amhariad Clyw | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Coed Glas | 4-11 | 20 |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | 11-18 | 20 |

## Darpariaeth ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion neu ganolfannau arbennig

Mae ysgolion arbennig yn darparu addysg a chymorth wedi'i deilwra i helpu dysgwyr ag ystod o anawsterau dysgu neu anableddau i gyflawni eu potensial llawn.

Mae nodweddion allweddol ysgol neu ganolfan arbennig yng Nghaerdydd, yn ogystal ag ysgol brif ffrwd, yn cynnwys:

**(i) Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol** Mae ysgolion arbennig yn creu cynlluniau dysgu wedi'u teilwra ar gyfer pob dysgwr, gan fynd i'r afael â'u hanghenion a'u nodau unigryw.

**(ii) Staff cymwys, profiadol ac arbenigol:** Mae'r ysgolion hyn yn cyflogi athrawon, therapyddion a staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda dysgwyr ag anableddau amrywiol.

**(iii) Cwricwlwm Addasol:** Mae'r cwricwlwm wedi'i addasu i ddarparu ar gyfer gwahanol arddulliau a galluoedd dysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at y Cwricwlwm i Gymru.

**(iv) Technoleg Gynorthwyol:** Mae ysgolion arbennig yn defnyddio technoleg ac offer i gynorthwyo dysgu, megis dyfeisiau cyfathrebu, meddalwedd addasol, ac offer arbenigol.

**(v) Maint Dosbarthiadau Bach a chymhareb uwch staff:dysgwyr:** Mae maint dosbarthiadau llai a mwy o staffio yn caniatáu gwaith mwy unigol, pâr a grŵp bach wedi'i deilwra i gefnogi anghenion penodol pob dysgwr

**(vi) Gwasanaethau Therapiwtig:** Mae gan yr ysgolion arbennig fynediad at wasanaethau (yn aml ar y safle) fel Seicoleg Addysgol, Therapi Iaith a Therapi Galwedigaethol i gefnogi datblygiad cyfannol dysgwyr.

## Ysgolion Arbennig Caerdydd

DS Mae tair o'r ysgolion arbennig - Woodlands, Riverbank a Meadowbank, yn cynnig lleoliad i fodloni mwy nag un maes angen: anghenion awtistiaeth / cyfathrebu cymdeithasol ac anghenion dysgu. Er eglurder mewn perthynas â meini prawf ac ystod y ddarpariaeth, rhestrir yr ysgolion hyn ddwywaith.

| **Ysgol neu ganolfan arbennig i ddysgwyr ag awtistiaeth/anawsterau cyfathrebu cymdeithasol** | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Oedi datblygiadol difrifol o 50-75% neu fwy, sy'n effeithio ar sgiliau bywyd fel toiled, bwyta ac yfed<br>• Ar y Llwybr Niwro-Ddatblygiadol neu Ddiagnosis o Awtistiaeth<br>• Lefelau sylw - byrlymus - parodrwydd i ddysgu wedi'u heffeithio<br>• Datblygiad cymdeithasol wedi'i amharu'n sylweddol<br>• Anhyblygrwydd o ran meddwl ymddygiad a chyfathrebu, gan rwystro'n ddifrifol ddysgu a gweithredu bob dydd<br>• Ymddygiad/ dadreoleiddiad - Perygl i hunan / eraill- angen ei gadw'n ddiogel (bwyta gwrthrychau anfwytadwy, dringo ac ymddygiad cymryd risg, dim ymdeimlad o berygl<br>• Prosesu synhwyraidd sylweddol<br>• Lefelau uchel o bryder sy'n debygol iawn o fod yn bresennol<br>• Trawsnewidiadau a heriau newid | • Amgylchedd dosbarth bach gyda chymhareb uchel i oedolion i ddysgwyr sy'n darparu amgylchedd meithringar gyda dysgu wedi'i bersonoli, cymorth therapi, datblygu sgiliau bywyd, a chyrsiau achrededig i baratoi dysgwyr ar gyfer oedolion ac annibyniaeth<br>• Mae gan yr holl staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol o weithio gyda dysgwyr ag awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol<br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br>• Amgylchedd tawel, diogel a oedd yn dileu rhwystrau cyd-destun prysur, cymdeithasol heriol ysgol prif ffrwd<br>• Addysgu, modelu ac ysgogi uniongyrchol systematig sy'n ofynnol ar gyfer datblygu sgiliau iaith/cyfathrebu mynegiannol (Systemau cyfathrebu estynnol ac amgen/dull cyfathrebu cyfan)<br>• Rhaglen systematig i gefnogi dealltwriaeth o gyfathrebu geiriol a di-eiriau.<br>• Gweithgareddau hynod strwythuredig i hyrwyddo sgiliau ar gyfer rhyngweithio ag oedolion neu gyfoedion<br>• Asesiadau SCERTS a ddefnyddir i fonitro cynnydd a gosod targedau ar gyfer sgiliau cyfathrebu cymdeithasol a rheoleiddio emosiynol<br>• Defnyddio PECS a symbolau gweledol i helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu<br>• Defnyddio strategaethau TEACCH fel gweithfannau strwythuredig<br>• Cydweithio â gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys seicolegwyr addysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol, a gweithwyr cymdeithasol, i ddarparu dull cyfannol |

| Appropriate schools/centres | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Meadowbank | 4-11 | 98 |
| Ysgol Arbennig Riverbank | 4-11 | 78*** |
| Ysgol The Hollies | 4-11 | 150 |
| Ysgol Uwchradd Arbennig Woodlands | 11-19 | 180*** |
| The Marion Centre | 11-19 | 66 |

***Bydd lleoedd dynodedig yn Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn cynyddu i 112 o leoedd a 240 o leoedd yn y drefn honno, ar ôl eu trosglwyddo i safle Campws y Tyllgoed yn 2026.

| **Ysgol arbennig i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth** | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Oedi datblygiadol difrifol o 50-75 %, gan arwain at gyraeddiadau sy'n llawer is na chyfoedion o'r un oed<br>• Hanes o gyflawni cynnydd ar gyfradd arafach na'u cyfoedion<br>• Anawsterau parhaus a hirdymor wrth gaffael sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd, sy'n effeithio ar fynediad i'r cwricwlwm<br>• Ystod o anawsterau cysylltiedig, yn enwedig mewn datblygiad lleferydd ac iaith ac mewn datblygiad cymdeithasol/emosiynol, dadreoleiddiad synhwyraidd a llythrennedd emosiynol cyfyngedig.<br>• Anhawster sylweddol yn dilyn arferion a disgwyliadau ystafell ddosbarth<br>• Methu cael mynediad at y cwricwlwm neu amgylchedd prif ffrwd<br><br>Gall rhai neu'r holl ffactorau canlynol fod yn bresennol:<br>• Anawsterau corfforol a meddygol<br>• Oedi mewn cyfathrebu cymdeithasol / sgiliau chwarae (cymryd tro / rhannu)<br>• Ymddygiadau anrhagweladwy / anhyblyg a all arwain at ymddygiadau tarfu sylweddol / ymosodol / gwrthwynebol / cymryd risg<br>• Lefelau Gorbryder Uchel | • Amgylchedd dosbarth bach, digyffro, diogel gyda chymhareb uchel i oedolion i ddysgwyr sy'n darparu amgylchedd meithringar sy'n datblygu sgiliau bywyd, a chyrsiau achrededig i baratoi dysgwyr ar gyfer oedolion ac annibyniaeth<br>• Mae gan yr holl staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol o gefnogi dysgwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau<br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br>• Cwricwlwm pwrpasol a gwahaniaethol iawn wedi'i deilwra i ddysgu wedi'i bersonoli sy'n ysbrydoli dysgwyr i gyflawni<br>• Rhaglen systematig i gefnogi dealltwriaeth o gyfathrebu geiriol a di-eiriau<br>• Cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer anawsterau dysgu penodol, fel dyslecsia, dyscalcwlia a dyspracsia, a all effeithio ar ddysgu<br>• Cydweithio â gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys seicolegwyr addysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol, a gweithwyr cymdeithasol, i ddarparu dull cyfannol |

| Ysgolion priodol | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Meadowbank | 4-11 | 98 |
| Ysgol Riverbank | 4-11 | 78*** |
| Ysgol Woodlands | 11-19 | 180*** |

***Bydd lleoedd dynodedig yn Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn cynyddu i 112 o leoedd a 240 o leoedd yn y drefn honno, ar ôl eu trosglwyddo i safle Campws y Tyllgoed yn 2026.

<table>
<tr><th colspan="2">Ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Dwys a Lluosog neu Awtistiaeth/Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol</th></tr>
<tr><th>Anghenion disgyblion</th><th>Math o ddarpariaeth sydd ei hangen</th></tr>
<tr><td>• Anableddau dysgu difrifol, dwys a lluosog, gan gynnwys anghenion meddygol, awtistiaeth a synhwyraidd<br>• Oedi datblygiadol dwfn o 75 % + gydag anghenion gwybyddiaeth a dysgu difrifol<br>• Anawsterau synhwyraidd, cyfathrebu neu iechyd meddwl sylweddol<br>• Gallu di-eiriau a chyfyngedig i gyfathrebu angen<br>• Ymddygiad/ dadreoleiddiad - Perygl i hunan / eraill- angen ei gadw'n ddiogel (bwyta gwrthrychau anfwytadwy, dringo ac ymddygiad cymryd risg, dim ymdeimlad o berygl<br>• Dibynnu ar eraill ar gyfer yr holl neu'r rhan fwyaf o anghenion gofal sylfaenol fel bwydo, yfed, newid osgo.<br>• Trawsnewidiadau a heriau newid<br><br>Yn ogystal, efallai y bydd gan rai dysgwyr<br>• Anghenion gofal iechyd cymhleth sy'n gofyn am therapi a gofal nyrsio trwy gydol y diwrnod ysgol.</td><td>• Amgylchedd dosbarth bach gyda chymhareb uchel i oedolion i ddysgwyr sy'n darparu amgylchedd meithringar gyda dysgu wedi'i bersonoli, cymorth therapi, datblygu sgiliau bywyd, a chyrsiau achrededig i baratoi dysgwyr ar gyfer oedolion ac annibyniaeth<br>• Mae gan yr holl staff addysgu a chymorth arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad arbenigol<br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br>• Ymagwedd gyfannol at ddatblygiad plant a phobl ifanc sy'n cefnogi'r datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a'r sgiliau swyddogaethol sydd eu hangen ar bobl ifanc i gefnogi annibyniaeth mewn bywyd bob dydd<br>• Rhaglenni dysgu wedi'u personoli wedi'u hadeiladu ar gryfderau a datblygu sgiliau gydol oes; nid yw llawer yn gallu manteisio eto ar ddysgu pynciau penodol.<br>• Amgylchedd tawel, diogel sy'n addas i ddysgwyr nad ydynt yn gallu ymdopi â chyd-destun prysur, cymdeithasol heriol ysgol brif ffrwd<br>• Rhaglen systematig i gefnogi dealltwriaeth o gyfathrebu geiriol a di-eiriau.<br>• Mae addysgu yn aml-synhwyraidd gyda ffurfiau amgen ac estynedig o gyfathrebu a ddefnyddir yn rheolaidd gydol y dydd.<br>• Gweithgareddau hynod strwythuredig i hyrwyddo sgiliau ar gyfer rhyngweithio ag oedolion neu gyfoedion<br>• Ysgogiad cyffyrddol a synhwyraidd dwys<br>• Cydweithio â gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys seicolegwyr addysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol, a gweithwyr cymdeithasol, i ddarparu dull cyfannol<br><br>Yn ogystal, efallai y bydd angen y ddarpariaeth ganlynol ar rai dysgwyr:<br>• Therapïau a gofal nyrsio trwy gydol y diwrnod ysgol.<br>• Offer symudedd helaeth fel cadair olwyn, fframiau sefyll, codi ac ati.<br>• Offer arbenigol fel systemau cyfathrebu estynnol, amgylcheddau synhwyraidd, pwll hydrotherapi</td></tr>
</table>

| Ysgolion priodol | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Tŷ Gwyn | 3-19 | 240 |



Canfod mwy yma
www.cardiff.gov.uk

| Ysgol arbennig i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol | |
|---|---|
| Anghenion disgyblion | Math o ddarpariaeth sydd ei hangen |
| • Anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl difrifol a pharhaus, a fynegir yn aml trwy ymddygiadau heriol neu gymryd risg sy'n rhwystro dysgu ac yn cyfyngu ar gynnydd academaidd.<br>• Methu â chael mynediad at ddysgu mewn amgylchedd prif ffrwd, heb risg o niwed i'ch hun neu eraill, er gwaethaf cefnogaeth barhaus a phriodol.<br>• Ymddygiadau peryglus sy'n cymryd risg gan gynnwys llinellau cyffuriau, camddefnyddio cyffuriau, dianc parhaus, hunan-niweidio, defnyddio arfau ac ati | • Amgylchedd dosbarth bach gyda chymhareb uchel o oedolion i ddysgwyr sy'n darparu amgylchedd meithrin gyda dysgu wedi'i bersonoli<br>• Amgylchedd diogel a strwythuredig wedi'i deilwra i anghenion proffil dysgwr a DDdY a bennir yn eu CDU<br>• Cymorth ac ymyrraeth wedi'i deilwra yn seiliedig ar eu hanghenion penodol, a all gynnwys cydbwysedd o waith unigol, pâr, grŵp bach neu ddosbarth cyfan.<br>• Strategaethau wedi'u targedu, ymyriadau, ac amgylchedd meithrin i feithrin gwytnwch a chynnydd academaidd<br>• Dull sy'n canolbwyntio ar ddeall y rhesymau y tu ôl i ymddygiadau heriol ac addysgu sgiliau newydd i'w disodli<br>• Sgiliau cymdeithasol, megis cyfathrebu, cydweithredu, a datrys gwrthdaro, trwy fodelu, chwarae rôl, ac adborth<br>• Strategaethau ac ymyriadau hunanreoleiddio<br>• Arferion Adferol sy'n canolbwyntio ar atgyweirio niwed ac adfer perthnasoedd<br>• Cydweithio â gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys seicolegwyr addysgol, seicolegwyr, a gweithwyr cymdeithasol, i ddarparu dull cyfannol |

| Ysgolion priodol | Ystod Oedran | Lleoedd Dynodedig |
|---|---|---|
| Ysgol Cynefin | 7-11 | 42**** |
| Ysgol Greenhill | 11-19 | 64 |

****Bydd nifer y lleoedd dynodedig yn Ysgol Cynefin yn cynyddu i 72 o leoedd, ar ôl eu trosglwyddo i safleoedd y Tyllgoed a Llanrhymni yn 2026.

**Mae'r holl ddarpariaeth yng Nghaerdydd yn cynnwys:**

(i) **Asesiad Parhaus:** Asesu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd ac addasu cyfarwyddyd yn ôl yr angen. Mae hyn yn helpu i nodi meysydd lle gallai fod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr ac yn sicrhau bod strategaethau addysgu yn effeithiol.

(ii) **Datblygiad Proffesiynol:** Darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i athrawon a staff i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi dysgwyr gydag ADY yn effeithiol.

(iii) **Cynnwys Rhieni:** Annog cyfranogiad gweithredol gan rieni a gofalwyr yn addysg eu plentyn. Mae'r cydweithrediad hwn yn helpu i greu amgylchedd dysgu cyson a chefnogol yn yr ysgol ac yn y cartref.